

Adroddiad blynyddol a chyfrifon **2025/26**

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026



Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025/26

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) a 15(3) o Atodlen 1ZA i Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i gael ei argraffu ar 9 Gorffennaf 2026

HC 319



Hawlfraint y Goron Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2026

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

Awdurdod Ymddygiad Ariannol
12 Endeavour Square
Llundain
E20 1JN

ISBN 978-1-5286-6444-8

E03552002 07/26

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

01 Adroddiad strategol

Datganiad y Cadeirydd	3
Cyflwyniad gan ein prif weithredwr	5
Ein pwrpas, ein blaenoriaethau a'n dull gweithredu	8
Ein model rheoleiddio	10
Ein hamgylchedd allanol	16
Ein strategaeth 2025 i 2030	19
Mewnwelediadau allweddol o flwyddyn 1	20
Ein cynnydd strategol 2025/26	23
Cyflawni canlyniadau gorfodaeth	40
Ein heffaith gadarnhaol	44
Datganiad Adran 172	47

Mae ein hadroddiad blynyddol wedi'i gynllunio i roi golwg hygrych a thryloyw o effaith ein gwaith.

Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfres ehangach o adroddiadau a datgeliadau. Er enghraifft, diweddariadau blynyddol ar:

- ganlyniadau a metrigau ein strategaeth
- metrigau gwasanaeth gweithredu
- Metrigau Amcan Cystadleurwydd a Thwf Rhyngwladol Eilaidd (SICGO)

Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn awdurdodi, goruchwyllo a gorfodi ar gael drwy ein cyhoeddiadau a'n tudalennau gwe, gan gynnwys ein hadolygiadau personau medrus (a166), data gorfodaeth, metrigau awdurdodiadau a'n hadroddiad blynyddol personau rhagnodedig.


Mae'r adroddiad hwn a'r gyfres ehangach ar gael ar-lein a, lle bo'n berthnasol, ceir dolenni yn yr adroddiad hwn.

Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Rydym yn defnyddio eiconau a dolenni drwy gydol yr adroddiad hwn i'ch helpu i lywio cynnwys a dod o hyd i ragor o wybodaeth.


Eiconau effaith

Yn Ein cynnydd strategol 2025/26, mae eiconau'n tynnu sylw at ble mae ein gwaith wedi cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar:



Llywio ac arwyddbyst

Mae gwaith trawsbynciol yn cael ei esbonio unwaith a cheir arwyddbyst mewn manau eraill.



Cydbwysu risg i gyflawni gwerth cyhoeddus hirdymor



'Nid mater o loywi enw da yw ymddiriedaeth mewn marchnadoedd ariannol. Mae'n ased cyhoeddus sy'n gofyn am stiwardiaeth weithredol.'

Ashley Alder
Cadeirydd

Mae hwn wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol ar gyfer rheoleiddio ariannol. Mae ansefydlogrwydd geowleidyddol, anwadalrwydd marchnad parhaus a phwysau ar gyllid aelwydydd wedi miniogi canlyniadau pob penderfyniad y mae'r FCA yn ei wneud.

Mae llawer yn y fantol, i'r defnyddwyr sy'n dibynnu ar wasanaethau ariannol, ac i'r cwmnïau sy'n llywio'r dirwedd ansicr hon. Yn yr amgylchedd hwn, mae llywodraethu rheoleiddiol cadarn nid yn unig yn byw yn y rheolau rydyn ni'n eu hysgrifennu neu'r camau rydyn ni'n eu cymryd - ond yn y ffordd rydyn ni'n gwneud dewisiadau ac yn cyfrif amdanynt.

Nid mater o loywi enw da yw ymddiriedaeth mewn marchnadoedd ariannol. Mae'n ased cyhoeddus sy'n gofyn am stiwardiaeth weithredol.

Pan fydd defnyddwyr yn cymryd morgais allan, yn buddsoddi eu cynilion neu'n gwneud penderfyniad pensiwn, maent yn gwneud hynny o fewn system y dylent allu ei chymryd yn ganiataol. Os yw'r hyder hwnnw'n cael ei danseilio, mae'n gwanhau'r sylfeini y mae economi'r DU yn dibynnu arnynt.

Ein rôl ni yw diogelu'r hyder hwnnw drwy gynnal safonau uchel, bod yn dryloyw ynglŷn â'n penderfyniadau a pharhau'n atebol.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn glir nad dileu risg yw pwrpas rheoleiddio effeithiol. Mae'n ymwneud â gwneud penderfyniadau gwybodus, tryloyw sy'n cydbwysu diogelu defnyddwyr, uniondeb y farchnad a chyfle er budd y cyhoedd.

Bydd trin risg sero fel y meincnod, dros amser, yn atal yr union weithgaredd sydd ei angen ar farchnadoedd cystadleuol, arloesol. Ac, wrth wneud hynny, yn creu math gwahanol o niwed: llai o fynediad, dewis cyfyngedig a system ariannol nad yw'n gallu gwasanaethu defnyddwyr y DU yn llawn.

Mae'r penderfyniad i ail-gydbwyso risg yn hytrach na'i dileu wrth wraidd ein strategaeth 2025 i 2030. Mae'n ddewis bwriadol, wedi'i seilio ar egwyddorion clir. Rhaid i ni fod yn eglur am y cyfaddawdau, yn hyderus yn ein rhesymu ac yn atebol am benderfyniadau o fewn ein cylch gorchwyl. Mae canlyniadau da hefyd yn dibynnu ar y system ehangach, gyda chwmnïau, y Llywodraeth, rheoleiddwyr eraill a rhanddeiliaid yn chwarae eu rhan.

'Ein rôl ni yw diogelu'r hyder hwnnw drwy gynnal safonau uchel, bod yn dryloyw ynglŷn â'n penderfyniadau a pharhau'n atebol.'

Rôl y Bwrdd yw angori penderfyniadau mewn gwerth cyhoeddus hirdymor, a chynnal y cwrs hwnnw wrth i'r strategaeth aeddfedu. Gyda'r ymrwymiad hwn daw craffu seneddol a phanel, a thrafodaeth gyhoeddus, y mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi pob un ohonynt. Mae pob un yn gwasanaethu pwrpas gwahanol: craffu yn ein dal i gyfrif, archwilio yn profi ein prosesau, a thrafodaeth gyhoeddus yn siapio'r consensws. Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi rheoleiddio mwy effeithiol.

Mae penderfyniad y Llywodraeth i gyfuno'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) i'r FCA yn un yr ydym wedi'i gefnogi o'r cychwyn cyntaf. Mae cyfuno yn golygu gwell cydlyn, cyfrifoldebau cliriach a phrofiad symlach i gwmnïau. Yr hyn na fydd yn newid yw ein hymrwymiad i'r amcanion y mae'r PSR wedi'u hyrwyddo ers amser maith: cystadleuaeth, mynediad ac arloesedd.

Mae'n rhaid i ni gynnal safonau, nid eu gosod yn unig, ac rydym yn gwneud hynny. Mae ein dadansoddiadau cost-budd cyhoeddus yn amcangyfrif bod y rheolau yr ydym wedi'u cyflwyno dros y 10 mlynedd diwethaf wedi cyflawni £5.6bn mewn buddion i ddefnyddwyr a'r economi yn 2025/26.

Lle mae cwmnïau wedi methu, rydym wedi gweithredu. Mae'r ddirwy o £42 miliwn a osodwyd ar Barclays a'r taliad gwirfoddol o £6.28 miliwn a wnaed gan Barclays am fethiannau cydymffurfio â gwyngalchu arian yn enghreifftiau o'n parodrwydd i gymryd camau cryf.

Nid yw rheoleiddio da yn ymarfer tymor byr. Bydd cymhellion bob amser i raddnodi penderfyniadau i'r penawdau uniongyrchol.

Ein gwaith fel Bwrdd yw gwrthsefyll yr atyniad hwnnw a sylfaenu ein gwaith mewn gwerth cyhoeddus hirdymor: dyfnhau ymddiriedaeth, ail-gydbwyso risg, gwella bywydau a chefnogi twf cynaliadwy mewn ffyrdd sy'n cyfuno dros amser. Disgwylir i fanteision ymyriadau eleni, gan gynnwys amddiffyniad cryfach i ddefnyddwyr Prynu Nawr Talu'n Hwyrach (BNPL) - a elwir fel arall yn Credyd Talu Gohiriedig (DPC) - a chanlyniadau gwell i gynilwyr pensiwn, fod yn fwy na £1bn bob blwyddyn am y degawd nesaf.

Dyma sut mae rheoleiddio egwyddorol, parhaol yn edrych yn ymarferol. Nid yw hyder defnyddwyr, uniondeb y farchnad a thwf economaidd yn amcanion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Maen nhw'n dibynnu ar ei gilydd - a'n tasg ni yw diogelu'r berthynas honno.

Rwy'n ddiolchgar i holl gydweithwyr yr FCA am eu hymroddiad drwy gydol y flwyddyn hon. Hoffwn hefyd ddiolch i'm cyd-aelodau'r Bwrdd am eu doethineb ar y cyd.

Yn olaf, rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar i'n Prif Weithredwr, Nikhil Rathi, y mae ei arweinyddiaeth drwy flwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd wedi dod â'r eglurder, y pwrpas a'r uchelgais sydd eu hangen i'w chyflawni.



Ashley Alder
Cadeirydd, FCA

Gyrru newid, adeiladu ymddiriedaeth



'Rydym yn adeiladu'r sylfeini cywir - offer mwy craff, safonau cliriach, gweithredu cynharach a sefydliad sy'n barod i ddysgu ac addasu.'

Nikhil Rathi
Prif Weithredwr

Fe wnaethom ddechrau ein strategaeth 2025 i 2030 mewn blwyddyn a brofodd ein blaenoriaethau cyn iddynt gael eu gweithredu'n llawn.

Nid yw 4 blaenoriaeth ein strategaeth - helpu defnyddwyr, dod yn rheoleiddiwr mwy craff, cefnogi twf a brwydro yn erbyn troseddau ariannol - yn gwro o'r hyn a ddaeth o'r blaen. Maent yn fynegiant cliriach ohono, wedi'u hangori mewn gwersi a ddysgwyd ac yn barod ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Maent hefyd yn rhoi gwell fframwaith i ni ar gyfer dysgu, gan ein helpu i ddeall lle mae ein ymyriadau yn gweithio, lle mae risgiau'n newid a lle mae angen i ni ail-raddnodi.

Nid yw eleni wedi bod am lansio ymrwymadau newydd yn gymaint ag am newid sut rydym yn rheoleiddio yn ymarferol. Fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrech ar y niwed mwyaf difrifol, gan ymyrryd yn gynharach a bod yn gliriach am ein disgwyliadau.

Mae hynny'n cynnwys sut rydyn ni'n gweithredu fel sefydliad. Rydym wedi paratoi ar gyfer rôl estynedig, gan gynnwys cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio cwmnïau gwasanaethau proffesiynol ar gyfer gwrthwyngalchu arian ac ar gyfer cyfuno'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) i'r FCA.

Rydym hefyd wedi parhau i drawsnewid ein porth awdurdodiadau, gan symud i ffurflenni digidol modern sy'n lleihau ffrithiant ac yn gwella ansawdd data.



Mae newidiadau prosesau, gan gynnwys digideiddio a gwell defnydd o ddata, wedi gwella pa mor gyflym y mae ceisiadau'n cael eu hasesu, gan alluogi penderfyniadau cynharach ac ymgysylltu cliriach â chwmnïau. Rydym hefyd yn gweithio i ymgorffori AI mewn rhannau o'r broses, a fydd yn helpu timau i adolygu ceisiadau'n gyflymach fel y gallant ganolbwyntio ar achosion risg uwch. Mae hwn yn newid bwriadol tuag at ddod yn rheoleiddiwr cyflymach sydd fwy dan arweiniad data.

Mae AI yn ail-ffurfio mwy nag awdurdodiadau. Mae'n ail-lunio'r marchnadoedd rydyn ni'n eu goruchwylio, a sut rydyn ni'n eu goruchwylio. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau eisoes wedi mabwysiadu AI, ac rydym yn disgwyl i'r cam nesaf - gan gynnwys systemau agentig a tocynyddiaeth - newid strwythur y farchnad yn ddwfn. Rydym yn aifeddwl sut olwg sydd ar reoleiddio effeithiol yn yr amgylchedd hwn, gan gynnwys defnyddio AI fel 'ymatebwr cyntaf' i fynd i'r afael â cham-drin mewn marchnadoedd cyfanwerthu. Mae ein Blwch Tywod Uwch (*Supercharged Sandbox*) a'n Labordy AI eisoes yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau adeiladu, profi a graddio AI mewn gwasanaethau ariannol.

Er bod defnyddwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith, nid ein rôl ni yw eu gwarchod rhag pob risg. Ein rôl ni yw gwneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus, cael mynediad at gynhyrchion teg a dod o hyd i ffordd effeithiol pan fydd pethau'n mynd o'i le. Mae hynny'n golygu gwella gwytnwch a gwneud penderfyniadau ar draws y system, o ansawdd y wybodaeth y mae cwmnïau yn ei darparu i eglurder ein disgwyliadau ein hunain.

Eleni, rydym yn nodi rheolau newydd ar fuddsoddiadau cyfansawdd defnyddwyr (CCI) i alluogi i gwmnïau gyfathrebu gwybodaeth am gynnyrch yn well i gwsmeriaid manwerthu. Bydd ein rheolau newydd ar gyfer Prynu Nawr Talu'n Hwyrach (BNPL) di-log, sy'n dod i rym ym mis Gorffennaf 2026, yn cyflwyno amddiffyniadau cryfach i'r rhai sy'n defnyddio'r cynnyrch, gan gydbwyso bregusrwydd defnyddwyr gyda datgeliad cymesur a lle ar gyfer arloesedd. Yn olaf, bydd cymorth wedi'i dargedu yn helpu i gau'r bwch cyngor, gan ganiatáu i gwmnïau wneud awgrymiadau wedi'u teilwra i ddefnyddwyr i gefnogi twf drwy fuddsoddi ac arloesi.

Fe wnaethom gyflwyno cynllun iawndal cyllid modur y disgwylir iddo roi £7.5bn yn ôl ym mhocedi pobl. Rydym yn amddiffyn y cynllun yn gadarn rhag heriau cyfreithiol ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau iawndal teg i ddefnyddwyr cyn gynted â phosibl, tra'n cefnogi marchnad iach ar gyfer cyllid modur.

Nid yw ail-gydbwyso risg yn golygu gwanhau safonau. Mae'n golygu bod yn fwy bwriadol ynglŷn â lle rydym yn defnyddio ein hadnoddau, yn fwy tryloyw ynglŷn â chyfaddawdau ac yn gyflymach yn ein penderfyniadau.

Mae hyn yn wir am ein dull o gynhwysiant ariannol, sy'n parhau i fod yn ganolog i farchnad sy'n gweithredu'n dda. Rydym wedi mabwysiadu dull cymesur a sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth i wella mynediad, gwytnwch a chanlyniadau teg i ddefnyddwyr, gan gynnwys drwy'r Pwyllgor Cynhwysiant Ariannol a'n hymgysylltiad â Fair4All Finance a phartneriaid eraill.

Er enghraifft, mae ein Datganiad Cynilo yn y Gweithle – a ddatblygwyd yn dilyn gwaith gyda darparwyr cynilion, cyflogwyr a phartneriaid y llywodraeth – yn cefnogi gweithredu cynlluniau cynilo yn y gweithle a fydd yn helpu defnyddwyr i adeiladu gwytnwch ariannol a gwella canlyniadau hirdymor.

Ar draws y gwaith hwn, nid ydym wedi colli golwg ar ddefnyddwyr mewn amgylchiadau bregus. Mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr (y Ddyletswydd) wedi gyrru newid cadarnhaol yn y ffordd y mae cwmnïau yn adnabod ac yn ymateb i fregusrwydd, ond rydym yn gwybod y gall niwed fynd heb gael sylw. Byddwn yn parhau i ddal cwmnïau i safonau uchel o ran sut maen nhw'n adnabod, yn cefnogi ac yn diogelu'r defnyddwyr hyn.

Nid yw sefyllfa'r DU fel canolfan ariannol dibynadwy yn fyd-eang yn atodol i'n cenhadaeth. Mae'n rhan o'r hyn rydyn ni yma i'w gynnal.

Mae diwygiadau rhestru, fframwaith PISCES (Private Intermittent Securities and Capital Exchange System) ar gyfer masnachu cwmnïau preifat, a'n datblygiad parhaus o'r Blwch Tywod Gwarantau Digidol yn adlewyrchu ymdrech fwriadol i gryfhau'r seilwaith hwnnw, gan alluogi cwmnïau i gael mynediad at gyfalaf yn fwy effeithlon a buddsoddwyr i gymryd rhan yn hyderus.

'Fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrech ar y niwed mwyaf difrifol, gan ymyrryd yn gynharach a bod yn gliriach am ein disgwyliadau.'

Rydym yn cydnabod bod marchnadoedd gwydn, wedi'u rheoleiddio'n dda yn gwasanaethu budd cenedlaethol ehangach. Mewn byd mwy dadleuol, mae uniondeb systemau ariannol ei hun yn ddimensiwn o ddiogelwch cenedlaethol. Mae ein Labordy Amddiffyn, Diogelwch a Gwydnwch, a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn gweithio i alinio cyfalaf preifat, goruchwyliaeth reoleiddiol a diogelwch cenedlaethol - gan droi egwyddor yn ymarfer.

I holl gydweithwyr yr FCA, boed yn Llundain, Leeds neu Gaeredin: Diolch am eich ymrwymiad a'ch proffesiynoldeb drwy gydol y flwyddyn hon. Mae ein presenoldeb cenedlaethol cynyddol yn adlewyrchu nid yn unig uchelgais weithredol ond ymrwymiad gwirioneddol i gynrychioli ehangder economi'r DU.

Nikhil Rath

Nikhil Rath

Prif Weithredwr, FCA

Ein pwrpas, ein blaenoriaethau a'n dull gweithredu

Gwneud i wasanaethau ariannol **weithio'n dda** i ddefnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd



Ein rôl

Rydym yn galluogi marchnad gwasanaethau ariannol deg a ffyniannus er lles defnyddwyr a'r economi.

[Darllenwch fwy am ein rôl](#)



Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw dyfnhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau ariannol, ail-gydbwyso risg, cefnogi twf a gwella bywydau.

[Darllenwch fwy am ein gweledigaeth](#)



Ein gwerthoedd

Rydym yn gwasanaethu'r cyhoedd ac mae ein penderfyniadau'n effeithio'n uniongyrchol ar les defnyddwyr, busnesau ac economi'r DU. Felly mae ein gwerthoedd yn bwysig. Maent yn cynrychioli'r diwylliant yr ydym yn anelu ato bob dydd, gan arwain ein barn, adeiladu ymddiriedaeth a'n helpu i fod 'ar ein gorau'.

[Darllenwch fwy am ein gwerthoedd](#)

Ein hamcanion gweithredol



Darparu
amddiffyniad
priodol i
ddefnyddwyr



Gwella uniondeb
system
ariannol y DU



Hyrwyddo
cystadleuaeth
effeithiol er
budd defnyddwyr



Lle bynnag y bo'n
bosibl wrth fynd ar
drywydd yr amcanion
hyn, hyrwyddo
cystadleurwydd
rhyngwladol a thwf
economi'r DU

Sut rydyn ni'n gweithio

Rydym yn atebol i Drysorlys a Senedd EF, ac mae ein hamcanion statudol wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Wrth gyflawni ein hamcanion statudol, rydym yn defnyddio ystod o bwerau statudol, gan gynnwys pwerau cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, i fynd i'r afael â niwed a chefnogi gweithrediad effeithiol y farchnad.

Wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol, rydym yn ystyried cefnogi cynhwysiant ariannol, fel y nodir yn llythyr cylch gwaith 2024 y Llywodraeth. Rydym yn ystyried cynhwysiant ariannol lle mae'n berthnasol i'n hamcanion, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi, dull goruchwyllo ac ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a fframweithiau datgelu cysylltiedig, sydd wedi'u nodi yn ein hadroddiad cynaliadwyedd amgylcheddol.

Dan arweiniad data a thystiolaeth, rydym yn esbonio'r dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud a pham. Rydym yn ymdrechu i fod yn agored, yn chwilfrydig, yn gydweithredol ac yn ddyfeisgar wrth i ni gyflawni ein 4 blaenoriaeth strategol i helpu defnyddwyr, dod yn rheoleiddiwr mwy craff, cefnogi twf a brwydro yn erbyn troseddau ariannol.

Sut rydyn ni'n gweithio

Sut rydym yn olrhain ein cynnydd

Mae ein cynnydd strategol 2025/26 yn esbonio sut mae cyflawni, metrigau a chanlyniadau yn y flwyddyn yn cyd-fynd â phob blaenoriaeth strategol. Rydym hefyd yn olrhain perfformiad yn flynyddol yn erbyn ein hamcanion a'n strategaeth statudol drwy ein hadroddiad Canlyniadau a metrigau a'r adroddiad Metrigau gwasanaeth gweithredu.

Gan mai 2025/26 yw blwyddyn gyntaf ein strategaeth 2025 i 2030, mae adrodd yn canolbwyntio'n bennaf ar y camau sydd wedi'u cymryd, newidiadau rheoleiddiol sydd wedi'u gwneud ac arwyddion cynnar o gynnydd. Gall symudiadau mewn canlyniadau a metrigau ar y cam hwn adlewyrchu cyfeiriad teithio, tueddiadau oedd yn bodoli eisoes neu ffactorau allanol ehangach, yn ogystal â dylanwad ein gwaith.

Bydd canlyniadau i ddefnyddwyr, marchnadoedd a'r economi ehangach yn dod i'r amlwg dros amser wrth i ddiwygiadau gael eu hymgorffori. Byddwn yn adrodd ar y rhain dros oes ein strategaeth 5 mlynedd, gan ddechongli metrigau ochr yn ochr â'n naratif cyflawni a'n prif risgiau.

Sut rydyn ni'n rheoleiddio



Mae'r adran hon yn esbonio sut mae ein model rheoleiddio yn gweithio, gan ddwyn ynghyd beth a phwy rydyn ni'n ei reoleiddio, pwy rydyn ni'n ei amddiffyn, sut rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid, sut mae mewnwelediad yn siapio ein penderfyniadau, a sut mae ein gwaith yn cael ei ariannu.

Awdurdodi, goruchwyllo a gorfodaeth yn gweithio gyda'i gilydd

Mae ein dull yn gweithio fel system ar y cyd ar draws awdurdodiadau, goruchwyliaeth a gorfodaeth. Drwy awdurdodi, y porth i reoleiddio, rydym yn penderfynu pa gwmnïau a gweithgareddau sy'n mynd i mewn i'r perimedr rheoleiddio ac yn gosod safonau mynediad. Drwy oruchwyliaeth, rydym yn ceisio adnabod risgiau yn gynnar, ymyrryd yn gymesur a chefnogi cwmnïau i wneud pethau'n iawn cyn i niwed ddigwydd. Pan nad yw materion difrifol neu barhaus yn cael eu datrys, gallwn ddwysáu ein hymateb drwy offer fel adolygiadau pobl medrus a, lle bo angen, camau gorfodaeth ffurfiol i amddiffyn defnyddwyr a chynnal uniondeb y farchnad.

Egwyddorion rheoleiddio da

Rydym yn ystyried egwyddorion rheoleiddio da ym mhob agwedd ar ein gwaith. Er enghraifft:



Diwygio cymesur o'r gyfundrefn prospectws a chynigion cyhoeddus

Egwyddorion: cymesuredd | effeithlonrwydd ac economi

Fe wnaethom symleiddio'r gyfundrefn prospectws a chyflwyno fframwaith cynigion cyhoeddus newydd i leihau ffurthiant diangen i gyhoeddwy'r tra'n cynnal amddiffyniadau priodol i fuddsoddwyr. Mae hyn yn cefnogi marchnadoedd cyfalaf effeithlon, effeithiol a chystadleurwydd drwy ei gwneud hi'n haws codi cyfalaf.



Ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon

Egwyddorion: uniondeb | ymddygiad y farchnad

Fe wnaethom weithredu'n gyflym i amharu ar hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon a niweidiol, gan ddefnyddio monitro dan arweiniad data ac ymyrraeth gynnar i atal niwed i ddefnyddwyr a diogelu uniondeb marchnadoedd y DU.



Dod â Prynu Nawr Talu'n Hwyrach i mewn i reoleiddio

Egwyddorion: cymesuredd | bod yn agored a datgelu

Fe wnaethom gyflwyno rheolau newydd ar gyfer BNPL di-log - a elwir fel arall yn Credyd Taliad Gohiriedig (DPC) - gan ddod ag ef i mewn i reoleiddio o fis Gorffennaf 2026. Mae'r rhain yn cynnwys amddiffyniadau cryfach, megis gwybodaeth cynnyrch cliriach a gwiriadau credyd, tra'n cefnogi arloesedd a mynediad parhaus i BNPL i'r miliynau sy'n ei ddefnyddio i reoli eu cyllid.



Lleihau gofynion adrodd rheoleiddiol diangen

Egwyddorion: effeithlonrwydd ac economi | cymesuredd

Rydym yn parhau i adolygu gofynion adrodd presennol, gan ddileu neu symleiddio'r rhai nad ydynt bellach yn darparu gwerth rheoleiddiol clir, lleihau'r baich i gwmnïau tra'n cynnal goruchwyliaeth effeithiol o risgiau.

Marchnadoedd a gweithgareddau rydyn ni'n eu rheoleiddio

Gwasanaethau ariannol manwerthu

Bancio

Benthycu defnyddwyr

Yswiriant

Buddsoddi defnyddwyr

Incwm ymddeol

Ein ffocws: gwerth teg, cynhyrchion clir a chanlyniadau defnyddwyr da ar draws marchnadoedd manwerthu.

Marchnadoedd buddsoddi a chyfanwerthu

Rheoli asedau

Marchnadoedd cyfalaf

Seilwaith

Rheoli cyfoeth

Yswiriant cyfanwerthol

Ein ffocws: hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, stiwardiaeth effeithiol ac uniondeb y farchnad i gefnogi twf cynaliadwy a chystadleurwydd.

Taliadau a chyllid digidol

Taliadau

E-arian

Cyllid digidol

Cryptoasedau (gan gynnwys stablecoins)

Ein ffocws: taliadau diogel a dibynadwy, cefnogi arloesedd a chystadleuaeth, a fframwaith rheoleiddio clir, cadarn.

Pwy rydyn ni'n eu rheoleiddio

Cwmnïau

Cwmnïau awdurdodedig a chofrestredig sy'n gorfod bodloni ein rheolau a chyflawni canlyniadau da. Rydym yn rheoleiddio ymddygiad tua 35,500 o gwmnïau ac yn goruchwyllo'n ddarbodus tua 34,000 o gwmnïau, gyda thua 14,000 yn ddarostyngedig i'r safonau darbodus yn ein Llawlyfr.

Marchnadoedd ariannol

Marchnadoedd cyfanwerthu a manwerthu sydd angen uniondeb a thryloywder i weithredu'n effeithiol.

Pwy rydyn ni'n eu hamddiffyn

Defnyddwyr

Individuals and households who rely on financial services to save, borrow, protect against risk and plan for the future.

Pwy sy'n elwa

Economi a chymdeithas y DU

Marchnadoedd ariannol sefydlog, cystadleuol a gweithredol sy'n cefnogi twf economaidd, gwynwch a safonau byw gwell.

Ein heffaith

Yn Ein cynnydd strategol 2025/26, mae eiconau'n tynnu sylw at lle mae ein gwaith wedi cael effaith uniongyrchol ar:



defnyddwyr



cwmnïau



machnadoedd



economi a
chymdeithas y DU



Gyda phwy rydyn ni'n gweithio

Rydym yn gweithio gyda'r Senedd, Trysorlys EF a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau defnyddwyr, rheoleiddwyr y DU - gan gynnwys y Fforwm Cydweithredu Rheoleiddio Digidol (DRCF) - ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cymheiriaid rhyngwladol, a chyrrff diwydiant i helpu i gyflawni ein gwaith.

Drwy'r fframwaith Goblygiadau Ehangach, rydym yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (yr Ombwdsmon Ariannol), y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) i fynd i'r afael â materion sydd ag effaith bosibl ar draws y sector gwasanaethau ariannol.

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a all roi feto ar ein gweithredoedd os yw'n credu y gallant fygwth sefydlogrwydd ariannol. Ni ddefnyddiodd y pŵer hwn yn ystod 2025/26. Rydym hefyd yn cwrdd ag archwilyr allanol rhai cwmnïau sydd wedi'u hawdurdodi gan PRA. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 29 o gyfarfodydd o'r fath.

Rydym yn destun archwiliad annibynnol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) a chraffu annibynnol ar gwynion am yr FCA gan y Comisiynydd Cwynion.

Darllenwch am effaith ein gwaith gyda phartneriaid yn Ein cynnydd strategol 2025/26.

Gwranddo ac ymgysylltu i lunio penderfyniadau gwell



Paneli y gwnaethom ymgysylltu â nhw

Fe wnaethom ymgynghori ar ein gwaith gyda 6 panel statudol annibynnol, a helpodd ni i brofi ein ffordd o feddwl, herio ein penderfyniadau a gwella canlyniadau. Fe wnaethom ymgysylltu a gwranddo'n gynnar, fel y gallwn siapio rheoleiddio sy'n gymesur, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf.

Fe wnaethom ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Ariannol i gael mewnwelediadau defnyddwyr, a'r Panel Cyngori Awdurdod Rhestru, Panel Ymarferwyr, Panel Ymarferwyr Marchnadoedd, a'r Panel Ymarferwyr Busnesau Llai ar gyfer safbwyntiau ymarferwyr.

Fe wnaethom hefyd ddilyn y Datganiad Polisi ar Benodiadau Panel, gan ddefnyddio ei brosesau a'i feini prawf wrth wneud penodiadau panel.

'Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni, bod arloesedd yn lledaenu, a bod marchnad y DU yn parhau i ennill eich ymddiriedaeth.'

Simon Walls,
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Marchnadoedd.



Panel Dadansoddi Cost-Budd

Mae'r Panel Dadansoddi Cost-Budd (CBA) yn dwyn ynghyd arbenigwyr annibynnol o ddiwydiant, y byd academiaidd ac ymgynghoriaeth i herio a chryfhau ein dadansoddiad. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y panel ein hasesiadau cost budd ar gyfer diwygiadau mawr a oedd yn bodloni'r trothwyon gostyngedig – gan gynnwys cryptoasedau a chyllid modur – a chyhoeddi 13 barn. Gwnaeth y panel hefyd argymhellion lefel uchel i wella'r defnydd o ddadansoddiadau cost budd.

Darllenwch ein hadroddiad CBA

Arolygon ar gyfer mewnwelediad

Rydym yn casglu mewnwelediadau gan ddefnyddwyr a chwmnïau drwy 3 arolwg allweddol:

Arolwg Financial Lives (FLS) – yn llywio gwaith diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth.

Arolwg FCA a Phanel Ymarferwyr – yn darparu adborth gan gwmnïau rheoledig ar ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd.

Arolwg Thinks – yn rhoi mewnwelediad i ganfyddiadau rhanddeiliaid ehangach o'n perfformiad a'n heffaith.

Astudiaethau achos ymgysylltu â'r panel

Isod mae 3 astudiaeth achos sy'n dangos sut mae ymgysylltu â'r panel wedi llywio ein gwaith:

Adolygiad ffiniau canllawiau cyngor (AGBR)



Codwyd pryderon am y fframwaith arfaethedig, yn enwedig yr angen i brofi dealltwriaeth a diddordeb defnyddwyr.



Mewn ymateb, gwnaethom gynnal ymchwil ychwanegol i ddefnyddwyr ac addasu dyluniad y drefn. Bydd hyn yn galluogi i ddefnyddwyr gael arweiniad syml, defnyddiol gan gwmnïau heb iddo ddod yn gyngor ariannol llawn.

Canlyniad

Canllawiau cliriach
Gwell cefnogaeth
Penderfyniadau gwell

Adolygiad o reolau morgais



Mae'r paneli yn ein hannog i brofi cynigion yn gynharach, caniatáu mwy o hyblygrwydd i fenthycwyr gyda safonau gofynnol clir, a bod yn agored am y cyfaddawdau rhwng gwella mynediad at forgeisi a rheoli risg ôl-ddyledion.



Fe wnaethom lunio rheolau morgeisi symlach i gynyddu benthyca a rhoi mwy o hyblygrwydd i rai defnyddwyr wrth wneud cais am forgais, gan gynnwys ail-forgeisio neu leihau eu tymor, tra'n bod yn glir am y risgiau.

Canlyniad

Rheolau symlach
Mwy o hyblygrwydd
Gwella mynediad

Moderneiddio'r fframwaith gwneud iawn



Nodwyd moderneiddio'r fframwaith gwneud iawn fel blaenoriaeth, yn enwedig i wella sut mae'n gweithredu mewn digwyddiadau gwneud iawn torfol a chryfhau cysondeb a rhagweladwyedd wrth wneud penderfyniadau.



Mewn ymateb, gwnaethom geisio adborth a defnyddio hyn i lywio ymgysylltu â Thrysorlys EF a'r Ombwdsmon Ariannol ar newidiadau system gyfan. Mae'r diwygiadau hyn bellach yn cael eu symud ymlaen drwy newid deddfwriaethol a rheoleiddio.

Canlyniad

Systemau gwneud iawn cliriach
Penderfyniadau mwy cyson
Datrys materion yn gynharach

Sut mae ein gwaith rheoleiddio yn cael ei ariannu a'i ddiogelu

Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol a ariennir gan y ffioedd yr ydym yn eu codi ar gwmnïau rheoleiddiedig. Rydym yn cadw cyfran gyfyngedig o gosbau ariannol, sy'n cael ei ddefnyddio i leihau ffioedd ar gyfer cwmnïau sy'n cydymffurfio, ac mae'r gweddill yn cael ei dalu i Drysorlys EF.

Darllenwch am ein gweithrediadau a'n datganiadau ariannol



**£761
miliwn**

**cyfanswm y ffioedd a'r
ardollau**

a gasglwyd gan gwmnïau
rheoleiddiedig.

Mae hyn yn cwmpasu

88%

**o'n gofyniad
cyllid blynyddol**



**£71.2
miliwn**

mewn cosbau ariannol a gadwyd

wedi helpu i

leihau

ffioedd rheoleiddio

ar gyfer cwmnïau sy'n
cydymffurfio



Ein hamgylchedd allanol

Yr amgylchedd
**sy'n siapio ein
penderfyniadau**
yn 2025/26



Mae'r adran hon yn disgrifio'r amgylchedd allanol lle gwnaethom ddewisiadau rheoleiddio. Mae'r amgylchedd allanol yn siapio lle mae risgiau, heriau a chyfleoedd i'n hamcanion yn codi, pa mor gyflym y gallant grisialu, a'r dewisiadau rheoleiddiol sydd eu hangen.

Mae risgiau, llywodraethu a lliniaru FCA-benodol wedi'u nodi yn adran prif risgiau trosolwg gweithredol y Grŵp.

Ansefydlogrwydd a gwrthdaro geowleidyddol

Ansicrwydd byd-eang dwys

Profodd marchnadoedd anwadalrwydd episodig a phigau prisiau a oedd yn gysylltiedig â datblygiadau geowleidyddol, yn enwedig mewn marchnadoedd ynni a nwyddau, er bod gweithrediad cyffredinol y farchnad wedi parhau i fod yn wydn. Parhaodd ansefydlogrwydd byd-eang dwys a datblygiadau technolegol i gynyddu'r risg o droseddau ariannol, gan gynnwys twyll, cyllid anghyfreithlon ac osgoi sancsiynau, gyda phwysau wedi'u gwaethygu gan droseddwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau ac adnoddau a gallu anwastad ar draws y system ehangach.



O'n hareithiau: ein hymateb

Hardwiring finance into national security

Renaissance at market speed: UK wholesale finance in 2026

Twf gwydn yn y DU er gwaethaf heriau rhyngwladol

Mae ansicrwydd yn parhau i ychwanegu pwysau

Roedd twf y DU yn 2025/26 yn wydn er gwaethaf heriau rhyngwladol sylweddol, gyda'r DU yn perfformio'n gymharol gryf o'i gymharu â rhai cyfoedion rhyngwladol. Fodd bynnag, parhaodd heriau strwythurol, twf cynhyrchiant cynnil ac ansicrwydd geowleidyddol parhaus i roi pwysau ar fodelau busnes cwmnïau a chyllid cartrefi.



O'n hareithiau: ein hymateb

Shining a light on private markets

Rebalancing risk to facilitate innovation and growth

Mwy o ffocws ar dwf a chystadleurwydd y DU

Newid disgwyliadau rheoleiddio

Roedd twf economaidd a chystadleurwydd yn parhau i fod yn amlwg mewn trafodaethau cyhoeddus, gyda mwy o ffocws ar faich rheoleiddio, cymesuredd a chymryd risg. Fe wnaeth hyn siapia disgwyliadau o sut y dylai rheoleiddio gefnogi twf tra'n cynnal amddiffyniadau, er bod ymgysylltu ar archwaeth risg system gyfan yn parhau i fod yn gyfyngedig.



O'n hareithiau: ein hymateb

Funding our future: Building brilliant companies on the UK's public markets

Risk, reform, reward: Why the UK is the place to invest

What kind of market do we want to be?

Screening for success: Opening the gateway to growth

Pwysau ariannol parhaus ar ddefnyddwyr

Gwydnwch is gan ddefnyddwyr

Roedd pwysau costau byw yn parhau, gyda'r effaith ar aelwydydd wedi'i dosbarthu'n anwastad. Roedd llawer o ddefnyddwyr yn parhau i fod yn fregus yn ariannol, gyda ffactorau fel costau ynni uwch yn parhau i roi pwysau ar gyllid aelwydydd, gan gynyddu'r risg o niwed, ôl-ddyledion a materion fforddiadwyedd ar draws gwasanaethau ariannol manwerthu.



O'n hareithiau: ein hymateb

Mortgage reform: Supporting home ownership in the UK

Resilient future: Strengthening financial capability and inclusion for all

Cynnydd mewn gwarchodaeth a dadglobaleiddio

Darnio marchnadoedd byd-eang

Fe wnaeth tensiynau masnach ddwysau, gan gynyddu'r risg o gostau uwch, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, pwysau chwyddiant a herio cydlynu rhyngwladol.



O'n hareithiau: ein hymateb

Strengthening the UK-China financial partnership
Japan and the UK: Shared growth, shared future

Dibyniaeth gynyddol ar drydydd partiön hanfodol

Pwysau uniongyrchol ar wydnwch gweithredol

Mae rhai cwmnïau gwasanaethau ariannol yn dibynnu ar nifer fach o ddarparwyr trydydd parti, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cwmwl a seilwaith craidd. Mae crynodiad yn cynyddu'r potensial i ddigwyddiadau raeadru drwy gwmnïau a marchnadoedd lluosog ar yr un pryd.



O'n hareithiau: ein hymateb

Regulating for growth – the future is now

Mwy o fabwysiadu deallusrwydd artiffisial

Cyflymu newid technolegol

Ehangodd cwmnïau'r defnydd o AI, gan gynnwys LLMs ar draws masnachu, rheoli risg, canfod twyll a gwasanaeth cwsmeriaid. Wrth greu cyfleoedd arloesi ac effeithlonrwydd, gall mwy o fabwysiadu arwain at risgiau ynghylch llywodraethu, diogelu defnyddwyr, uniondeb y farchnad a gwytnwch gweithredol.



O'n hareithiau: ein hymateb

AI for growth – how the FCA can help
The FCA's long-term review into AI and retail financial services: Designing for the unknown

Ehangu perimedr rheoleiddiol

Cwmpas a chymhlethdod cynyddol rheoleiddio

Parhaodd y perimedr rheoleiddiol i ehangu, gan gynnwys gweithgareddau newydd, sy'n dod i'r amlwg fel cryptoasedau, darparwyr sgoriau BNPL ac ESG. Mae'r datblygiadau hyn yn ehangu'r ystod o weithgareddau sy'n destun goruchwyliaeth reoleiddiol ac yn ychwanegu at gymhlethdod rheoli gofynion cystadleuol.



O'n hareithiau: ein hymateb

Global responses to digit asset regulation
The FCA's approach to regulating cryptoassets and stablecoins

Risgiau a chynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Pwysau strwythurol, tymor hwy

Parhaodd risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys effeithiau materol, y trawsnewidiad i economi carbon isel a chraffu ar hawliadau cynaliadwyedd, i siapio'r system ariannol fyd-eang. Roedd ffocws rheoleiddiol ar ymgorffori rheolau, adeiladu cysondeb rhyngwladol a mynd i'r afael â'r risg o honiadau camarweiniol neu ormodol.




O'n hareithiau: ein hymateb

Unlocking green growth: Why the UK is the smart bet for sustainable finance
Raising standards in transition finance: Clarity, coherence, collaboration

Strategaeth 5 mlynedd i ddyfnhau ymddiriedaeth a gwella bywydau

Mae ein strategaeth 2025 i 2030 yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ein strategaeth aml-flwyddyn flaenorol, gan fwrw ymlaen â'r hyn sydd wedi gweithio wrth fireinio ein dull gweithredu mewn ymateb i risgiau a chyfleoedd newydd.

Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio i ddyfnhau ymddiriedaeth, ail-gydbwysu risg, cefnogi twf a gwella bywydau mewn amgylchedd allanol heriol, sy'n cynnwys canlyniadau twf ystyfnig o isel.



Ein blaenoriaethau strategol

Er mwyn galluogi i'r diwydiant ariannol lwyddo a gwella bywydau, rydym yn canolbwyntio ar 4 blaenoriaeth:

- Helpu defnyddwyr
- Bod yn rheoleiddiwr mwy craff
- Cefnogi twf
- Brwydro troseddu

Sut mae'r blaenoriaethau yn gweithio gyda'i gilydd

Mae ein 4 blaenoriaeth yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae bod yn rheoleiddiwr mwy craff, mwy effeithiol yn ein helpu i frwydro yn erbyn troseddau ariannol. Mae hynny'n adeiladu ymddiriedaeth defnyddwyr, gan roi'r hyder iddynt gymryd risgiau gwybodus fel y gallant wrthsefyll ergydion ariannol yn well neu gynilo ar gyfer ymddeol. Gellir troi'r cynilion hyn yn gyfalaf i fusnesau fuddsoddi ac ehangu, sydd yn ei dro yn cefnogi twf. Ac mae hynny'n helpu i greu cyfoeth, codi safonau byw a gwella bywydau.

Rydym yn esbonio sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein 4 blaenoriaeth yn [Ein cynnydd strategol 2025/26](#).

Mewnwelediadau allweddol o flwyddyn 1

Rydym wedi llwyddo
i wneud cynnydd ym
mlwyddyn gyntaf
ein strategaeth



Gan adeiladu ar sylfeini cadarn, mae ein blwyddyn gyntaf wedi dangos bod blaenoriaethau clir, gwell defnydd o ddata a rheoleiddio mwy rhagweladwy yn ganolog i gyflawni ein gweledigaeth hirdymor.



Helpu defnyddwyr

Gellid cyrraedd tua
18 miliwn

o ddefnyddwyr drwy gymorth
pensiynau a mynediad i
fuddsoddiadau dros 10 mlynedd

✓ **Effaith:** mwy o bobl yn gallu gwneud
penderfyniadau ariannol gwybodus



Rheoleiddiwr mwy craff

100% o
gwmnïau ar My FCA

Nododd **81%** ei fod yn
hawdd i'w ddefnyddio

✓ **Effaith:** rhyngwyneb digidol syml,
fabwysiadwyd yn eang

Hyd at
£30,000

o allu benthyca morgeisi
ychwanegol posibl
i lawer o fenthycwyr

✓ **Effaith:** gwell hyblygrwydd
a mynediad at berchnogaeth cartref

Amcangyfrif o
£16 miliwn

wedi'i arbed ar draws

90% o
gwmnïau a reoleiddir

✓ **Effaith:** baich rheoleiddio is

Tua
£157 miliwn
mewn arbedion i ddefnyddwyr
sy'n talu yswiriant misol

✓ **Effaith:** gwerth teg i ddefnyddwyr
sy'n defnyddio rheolau gwerth teg y
Ddyletswydd

Prosesu achosion
goruchwylio llai
cymhleth wedi'u
torri o 4 awr i

6 munud

✓ **Effaith:** enillion effeithlonrwydd



Cefnogi twf

132
o geisiadau

i'r

**Blwch Tywod
Rheoleiddiol Uwch AI**

✓ **Effaith:** galw cryf am
gymorth arloesi



Brwydro troseddu

2,329
o rybuddion
wedi'u cyhoeddi

am gwmnïau/unigolion
anawdurdodedig neu sgam posibl

✓ **Effaith:** tarfu ar weithgarwch
anawdurdodedig

2 o weithredwyr
PISCES wedi'u
cymeradwyo

a **2 ar y gweill**

✓ **Effaith:** ehangu
mynediad buddsoddwyr i
farchnadoedd preifat

17 euogfarn
troseddol
wedi'u sicrhau

gan gynnwys twyll, delio mewnol,
gwyngalchu arian a throseddau DPA

✓ **Effaith:** gweithredu effeithiol cryf
yn erbyn chwaraewyr drwg

Aseswyd **99.3%**
o'r holl achosion
awdurdodi o fewn y
dyddiadau cau

✓ **Effaith:** enillion effeithlonrwydd

£1.77 miliwn
mewn dirwyon i 12
unigolyn am fethiannau mewn
cam-drin y farchnad

✓ **Effaith:** atal effeithiol

Sut y **gwnaethom gyflawni** ein 4 blaenoriaeth

Rydym wedi canolbwyntio ar y risgiau a'r niwed mwyaf difrifol, gan adeiladu ar ein gwaith i gefnogi defnyddwyr a chyflawni effaith hirdymor.

Helpu defnyddwyr

Tudalen 24



Rheoleiddiwr mwy craff

Tudalen 28



Cefnogi twf

Tudalen 31



Brwydro troseddu

Tudalen 35





Helpu defnyddwyr

Helpu defnyddwyr i
lywio eu bywydau
ariannol



Pam bod hyn yn bwysig

Mae llawer o ddefnyddwyr yn wynebu pwysau ariannol parhaus a phenderfyniadau cymhleth, megis cymryd credyd, dewis yswiriant, cynllunio ar gyfer bywyd diweddarach neu gael mynediad at berchnogaeth cartref. Mae'r pwysau hyn yn effeithio ar bobl yn wahanol.

Mae defnyddwyr mewn amgylchiadau bregus yn fwy tebygol o brofi niwed pan nad yw marchnadoedd yn gweithio'n dda. Gall diffyg mynediad at gymorth, gwybodaeth neu gynhyrchion priodol olygu bod defnyddwyr yn ymddieithrio neu'n gwneud penderfyniadau gwael, gan danseilio ymddiriedaeth a gwytnwch ariannol.

Rydym am i'n rheoleiddio gefnogi canlyniadau da i bob defnyddiwr, drwy gydol eu bywydau ariannol. Gyda'r Ddyletswydd Defnyddwyr (y Ddyletswydd) bellach wedi'i hymgorffori ac yn cyflawni canlyniadau da fwyfwy, rydym yn canolbwyntio ar newidiadau i'n fframweithiau rheoleiddio wedi'u targedu i'w symleiddio, gwella cefnogaeth a galluogi arloesi.

**Blaenoriaethau buddsoddiadau defnyddwyr: Cryfhau
ymddiriedaeth, cefnogi buddsoddwyr**

Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno eleni

- Cefnogi cynhwysiant ariannol fel yr amlinellir yn llythyr cylch gwaith y Canghellor a chwarae rôl allweddol yn y Pwyllgor Cynhwysiant Ariannol dan arweiniad y Llywodraeth.
- Diwygio rheolau i helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a meithrin mwy o hyder mewn buddsoddi a chynilo.
- Diwygio'r farchnad forgeisi i wella hyblygrwydd a mynediad at berchnogaeth cartref.
- Cryfhau diogelwch a gwytnwch i ddefnyddwyr, gan ganolbwyntio ar farchnadoedd yswiriant.
- Codi safonau drwy weithredu Dyletswydd i wella canlyniadau defnyddwyr.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2025/26

Cefnogi cynhwysiant ariannol

Fe wnaethom chwarae rhan gref yn natblygiad Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y Llywodraeth fel rhan o'r Pwyllgor Cynhwysiant Ariannol. Nod y strategaeth yw gwella cynhwysiant ariannol a lles aelwydydd ledled y DU.

Helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau cynilo a buddsoddi gwybodus

Mae ein rhaglen fawr o ddiwygio drwy'r adolygiad ffiniau canllawiau cyngor (AGBR) wedi dechrau symud tuag at weithredu gyda lansiad cymorth wedi'i dargedu ym mis Ebrill 2026. Er mwyn cefnogi gweithredu, fe wnaethom agor cymorth cyn ymgeisio ym mis Awst 2025, gan alluogi i gwmnïau baratoi ar gyfer awdurdodi cyn i'r drefn fynd yn fyw a chyflymu'r amser i'r farchnad o'i gymharu ag amserlenni nodweddiadol. Fe wnaethom gadarnhau rheolau terfynol, gan ehangu mynediad at gymorth ar gyfer penderfyniadau pensiynau a buddsoddi, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad neu fforddio cyngor rheoledig llawn. Dros y degawd nesaf, gallai o leiaf 18 miliwn o ddefnyddwyr gael cynnig cymorth ychwanegol.

Fe wnaethom ddatblygu diwygiadau i symleiddio gwybodaeth fuddsoddi a gweithio gyda'r diwydiant i wneud gwybodaeth am risg buddsoddi yn gliriach. Mae hyn yn helpu i ehangu mynediad at fuddsoddiadau prif ffrwd a lleihau cymhlethdod sy'n atal ymgysylltiad. Fe wnaethom hefyd gefnogi cysylltiad parhaus cwmnïau â dangosfyrddau pensiynau, gan wella'r seilwaith sydd ei angen ar ddefnyddwyr i ddod o hyd i'w cynilion pensiwn. Fe wnaeth gwaith ar Werth am Arian pensiynau symud ymlaen fel rhan o raglen ehangach i wella gwytnwch yn ddiweddarach mewn bywyd ac fel rhan o weithredu Deddf Cynlluniau Pensiwn 2026.

Effaith ar
ddefnyddwyr



Effaith ar
gwmnïau



Gwella hyblygrwydd morgeisi i ddefnyddwyr

Fe wnaethom ddechrau ar ddiwygio morgeisi unwaith mewn cenhedlaeth. Yn dilyn ein heglurhad ar brofion straen, diweddarodd 85% o'r farchnad ei dull gweithredu yn gyflym, gan alluogi i fenthycwyr gael mynediad at oddeutu £30,000 yn fwy. Roedd newidiadau ychwanegol ym mis Gorffennaf 2025 yn ei gwneud hi'n haws ailforgeisi, lleihau telerau neu drafod opsiynau gyda chwmni. Gyda'i gilydd, helpodd y newidiadau hyn fwy o bobl i gael mynediad at forgeisi fforddiadwy a chreu mwy o opsiynau i reoli eu morgais.

Effaith ar
ddefnyddwyr



Effaith ar
gwmnïau



'Rydym yn helpu defnyddwyr i lywio eu bywydau ariannol mewn byd sy'n newid yn gyson lle nad oes y fath beth ag un ateb sy'n addas i bawb.'

Sarah Pritchard, Dirprwy Brif Weithredwr



Gwella gwytnwch ac amddiffyniad ar adegau o straen ariannol

Fe wnaethom gyhoeddi rheolau terfynol ar gyfer Prynu Nawr Talu'n Hwyrach (BNPL) di-log yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid y diwydiant, grwpiau defnyddwyr a chyrrff y Llywodraeth. Mae'r rheolau yn gofyn am wybodaeth glir am gynnyrch, amddiffyniadau priodol a thriniaeth deg i helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

Fe wnaethom gynyddu gwaith mewn marchnadoedd yswiriant, gan gynnwys yswiriant modur, cyllid premiwm a diogelwch pur, lle gall gwerth gwael, trin hawliadau gwan neu gynhyrchion anaddas effeithio'n anghymesur ar ddefnyddwyr bregus.

Drwy gamau goruchwyllo ac adfer cadarn o dan y Ddyletswydd, fe'i gwnaed yn ofynnol i gwmnïau ailasesu gwerth teg, mynd i'r afael â methiannau'r gorffennol a gwella canlyniadau parhaus i ddefnyddwyr. Cyfrannodd ein gwaith yswiriant at £200m o iawndal i 270,000 o ddefnyddwyr a oedd wedi cael eu tan-dalu pan wnaethant golli eu ceir. Gan ddefnyddio rheolau gwerth teg y Ddyletswydd, fe wnaethom sicrhau bod defnyddwyr sy'n talu yswiriant misol yn derbyn gwerth teg, gan gyflawni arbedion amcangyfrifedig o tua £157m y flwyddyn.

Ar y cyd â phartneriaid, fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Cynilo yn y Gweithle i leihau rhwystrau rheoleiddiol canfyddedig i gynlluniau cynilo cyflogwyr, gan gefnogi defnyddwyr i gynilo'n rheolaidd ac adeiladu gwytnwch ariannol.

Effaith ar
ddefnyddwyr



Effaith ar
gwmnïau



Codi safonau a gwella profiadau defnyddwyr

Rydym wedi parhau i godi safonau drwy gefnogi cwmnïau i ymgorffori'r Ddyletswydd, cyhoeddi enghreifftiau o arferion da a gwael, diweddarau adnoddau ar gyfer cwmnïau llai a darparu eglurder pellach ar ein meysydd ffocws. Er mwyn helpu cwmnïau i gyflawni canlyniadau da, rydym hefyd wedi cyhoeddi adolygiadau ar gymorth defnyddwyr a dealltwriaeth defnyddwyr, ochr yn ochr â chanfyddiadau ar ddylunio digidol a thrin hawliadau.

Gan ddefnyddio'r Ddyletswydd, fe wnaethom finiogi ffocws goruchwyllo ar sectorau fel yswiriant a chredyd defnyddwyr, gan alluogi ymyrraeth gynharach lle roedd risg o ganlyniadau gwael. Mae dangosyddion cynnar yn dangos bod cwmnïau yn gwella gweithrediad Dyletswydd ac yn dyfnhau ffocws ar ganlyniadau defnyddwyr, gan gynnwys bregusrwydd. Pan welwn doriadau difrifol a niwed i ddefnyddwyr, gallwn gymryd camau gorfodaeth. Ar 31 Mawrth 2026, mae gennym 11 achos gorfodaeth agored yn ymwneud â'r Ddyletswydd, o'i gymharu ag 1 achos ar 31 Mawrth 2025.

Byddwn yn parhau i weithredu lle gwelwn risg o niwed, gan gynnwys gwaith pellach dan arweiniad y Ddyletswydd yn dilyn cwyn fawr Which? ar ddealltwriaeth defnyddwyr o yswiriant cartref a theithio.

Fe wnaethom adnewyddu ein dull o ymgysylltu â defnyddwyr i integreiddio'n well mewnwelediad gan ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw o fregusrwydd, i mewn i wneud penderfyniadau. Ar yr un pryd, rydym yn adolygu pwyntiau ffrithiant mewn teithiau cwsmeriaid, gan edrych ar ddyluniad a chyflwyno cwmnïau i rannu arferion da a gwael.

Roedd ein cyfathrebiadau hefyd yn canolbwyntio ar hawliau defnyddwyr a llwybrau i gefnogi, sy'n cael ei drafod yn fanylach yn Brwydro troseddau ariannol.

Fe wnaethom hefyd sefydlu cynllun iawndal ar gyfer cwsmeriaid cyllid modur yr effeithiwyd arnynt gan drefniadau comisiwn na chafodd eu datgelu'n ddigonol. Disgwylir i'r cynllun hwn ddychwelyd £7.5bn i ddefnyddwyr. Mae'r rhan fwyaf o fenthycwyr wedi ymrwymo i'w weithredu, a byddwn yn amddiffyn yr heriau cyfreithiol a dderbyniwyd.

Effaith ar
ddefnyddwyr



Effaith ar
gwmnïau



Trawsbynciol



Y gwahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud

Fe wnaethom wella amddiffyniad i ddefnyddwyr sydd mewn perygl o niwed gan godi disgwyliadau o ymddygiad cwmnïau ar draws marchnadoedd. Mae ymyriadau ar gredyd, yswiriant, cynilion a buddsoddiad wedi gwella gwybodaeth, tegwch a mynediad at gymorth, yn enwedig i ddefnyddwyr bregus.

Gall ymyriadau polisi sydd wedi'u hanelu at ddefnyddwyr gymryd amser i hidlo drwy'r cylch ariannol. Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth, rydym wedi canolbwyntio ar weithredu'n gynharach ar lefel y farchnad drwy well dylunio cynnyrch, gwybodaeth gliriach a safonau cryfach, er mwyn atal problemau y bydd angen gwneud iawn amdanynt ar raddfa eang yn ddiweddarach rhag cronni. Bydd effeithiau ar lefel defnyddwyr yn parhau i adeiladu wrth i newidiadau mewn arferion cwmnïau ddod i rym a dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr.



Rheoleiddiwr mwy craff

Rheoleiddio mwy
effeithlon ac
effeithiol



Pam bod hyn yn bwysig

Mae rheoleiddio ar gyflymder ac yn effeithlon yn sail i hyder yn y rheolau a osodwn. Gall prosesau cymhleth, rhyngweithiadau araf a gofynion data dyblyg neu werth isel gynyddu costau i gwmnïau, lleihau rhagweladwyedd a dargyfeirio sylw oddi wrth y risgiau uchaf. Dros amser, gall hyn danseilio ymddiriedaeth mewn rheoleiddio a hyder mewn marchnadoedd ariannol.

Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno eleni

- Lleihau gofynion adrodd diangen a baich gweinyddol ar gwmnïau.
- Digiddeiddio sut mae cwmnïau yn rhyngweithio â ni.
- Gwella cyflymder awdurdodiadau a chymesuredd goruchwyliaeth.
- Cyfathrebu blaenoriaethau rheoleiddiol yn gliriach ac yn gyson.
- Cryfhau'r defnydd o ddata a deallusrwydd i adnabod ac ymateb i risg.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2025/26

Lleihau baich rheoleiddio diangen

Fe wnaethom leihau baich ar gwmnïau a symleiddio'r dirwedd adrodd drwy barhau i gael gwared ar ffurflenni sydd wedi dyddio neu ddyblygu. Fe wnaethom ddadgomisiynu 8 ffurflen yn llawn a symud 5 ffurflen o gael eu cyflwyno'n chwarterol i'w cyflwyno'n flynyddol. Effeithiodd y newidiadau hyn ar dros 90% o gwmnïau a reoleiddir, gan sicrhau arbediad blynyddol o £16m mewn costau adrodd. Rydym yn bwriadu datgomisiynu a symleiddio ffurflenni pellach yn ddiweddarach eleni.

Effaith ar gwmnïau



Rhyngweithiadau symlach, digidol gyda'r FCA

Fe wnaethom lansio Fy FCA, gan roi un pwynt mynediad digidol i gwmnïau adrodd data a thalu ffioedd. Gall cwmnïau nawr weld eu holl dasgau sydd i'w gwneud mewn un lle, gan ei gwneud hi'n haws cyflawni eu hymrwymadau. Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, roedd yr holl gwmnïau awdurdodedig a rheoledig yn defnyddio Fy FCA - nododd 81% ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac roedd llai o ffurflenni wedi'u cyflwyno'n hwyr.

Effaith ar gwmnïau



Fe wnaethom hefyd gyflwyno gallu 'casglu hyblyg' digidol yn RegData, gan ei gwneud hi'n haws i gwmnïau ymateb i geisiadau data untro wedi'u targedu.

Awdurdodiadau cyflymach a goruchwyliaeth fwy cymesur

Drwy awtomeiddio gwaith ar achosion goruchwyllo llai cymhleth, fe wnaethom leihau amser prosesu o hyd at 4 awr i 6 munud ar gyfartaledd. Roedd hyn yn galluogi timau i ganolbwyntio ar achosion effaith uwch sy'n effeithio ar ddefnyddwyr neu uniondeb y farchnad.

Effaith ar gwmnïau



Fe wnaethom hefyd barhau i ddigideiddio'r porth a symleiddio ein prosesau awdurdodi, gan gynnwys ehangu cymorth cyn ymgeisio, i gefnogi gwneud penderfyniadau cyflymach a mwy rhagweladwy a chryfhau atebolrwydd drwy gyflwyno targedau perfformiad gwirfoddol newydd cyflwyno targedau perfformiad gwirfoddol newydd. Yn ystod mis Mawrth 2026, cyflwynwyd 48% o'r awdurdodiadau (ac eithrio personau cyfeiriadur) drwy'r platfform ar-lein digidol newydd (i fyny o 22% ym mis Mawrth 2025).

Ochr yn ochr â'r gwelliannau hyn, roedd yr amgylchedd lle rydym yn asesu ceisiadau ac yn goruchwyllo cwmnïau yn parhau i fod yn gymhleth ac yn esblygu. Wrth foderneiddio'r rheoliadau taliadau, mae'r Llywodraeth wedi cynnig symud cwmnïau taliadau i reoliad tebycach i FSMA. Bydd hyn yn cynyddu'r lefel o graffu sy'n angenrheidiol ac yn briodol ar y porth.

'Bydd arloesi yn ein helpu i fod yn rheoleiddiwr mwy craff, gan wella ein prosesau a'n galluogi i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.'

Jessica Rusu,
Chief Data, Prif Swyddog Data, Gwybodaeth a
Deallusrwydd



Cyfathrebu blaenoriaethau rheoleidiol yn gliriach

Er mwyn gwella eglurder a rhagweladwyedd, fe wnaethom atal pob llythyr Prif Weithredwr portffolio penodol a'u disodli gyda 9 adroddiad Blaenoriaethau Rheoleidiol blynyddol sy'n darparu blaenoriaethau allweddol penodol ar gyfer pob sector. Mae hyn wedi lleihau dyblygu a gwella dealltwriaeth o'n blaenoriaethau. Drwy helpu cwmnïau i ddeall disgwyliadau a blaenoriaethau yn well, rydym yn creu amodau ar gyfer canlyniadau gwell dros amser.

Effaith ar
farchnadoedd



Blaenoriaethau Rheoleiddio: Adroddiad bancio manwerthu

Fe wnaethom ehangu ein perthnasoedd uniongyrchol â chwmnïau ar draws bancio manwerthu a marchnadoedd cyfanwerthu. Fe wnaeth y rhyngweithiadau hyn ein helpu i rannu mewnwediadau a deallusrwydd y farchnad, llunio blaenoriaethau ac ymateb i bryderon. Rydym yn ymyrryd lle bo angen, gan addasu ein rhyngweithiadau goruchwyllo â chwmnïau i liniaru risgiau yn gymesur.

Gohebiaeth goruchwyllo

Defnydd cryfach o ddata a deallusrwydd

Fe wnaethom gryfhau sut rydym yn adnabod ac yn ymateb i risgiau newydd drwy wella dadansoddi ac integreiddio data ar draws marchnadoedd. Fe wnaeth awtomeiddio alluogi adnabod problemau'n gyflymach, trin achosion yn gyflymach a gweithredu cynharach lle mae risgiau'n codi. Fe wnaeth hyn hefyd lleihau'r gofynion ar gwmnïau.

Mae'r rhain yn gamau sylfaenol pwysig i ddod yn rheoleiddiwr mwy craff.

Effaith ar
farchnadoedd



Y gwahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud

Gyda'i gilydd, fe wnaeth y newidiadau hyn lleihau ffrithiant a gwella rhagweladwyedd i gwmnïau, gan ein galluogi i ganolbwyntio amser ac arbenigedd ar risgiau effaith uwch i ddefnyddwyr ac uniondeb y farchnad.

Drwy gael gwared ar ofynion gwerth isel ac egluro disgwyliadau, fe wnaethom gyflawni buddion rheoleidiol uniongyrchol a rhyddhau ein gallu i ganolbwyntio lle mae'n fwyaf pwysig.

Bydd rhai effeithiau, gan gynnwys lleihau baich parhaus a chanfyddiadau cadarn mwy cyson, yn cymryd mwy o amser i gael eu gwireddu wrth i newidiadau aeddfedu.



Cefnogi twf

Galluogi buddsoddiad,
arloesi a
chystadleurwydd



Pam bod hyn yn bwysig

Mae gwasanaethau ariannol yn ganolog i dwf y DU, gan gefnogi buddsoddiad, arloesi a chynhyrchiant drwy helpu busnesau i godi cyfalaf, rheoli risg, a thrwy roi hyder i ddefnyddwyr a buddsoddwyr gymryd rhan mewn marchnadoedd.

Fel rheoleiddiwr ariannol mwyaf y DU, rydym yn cefnogi cystadleurwydd rhyngwladol a thwf economaidd, tra'n cydnabod bod amodau economaidd ehangach yn dylanwadu ar ganlyniadau. Mae hyn yn helpu i gryfhau sefyllfa'r DU fel canolfan ariannol fyd-eang.

Mae ein llythyr o fis Rhagfyr 2025 at y Prif Weinidog yn nodi bron i 50 o fesurau o blaid twf a gyflwynwyd gennym y llynedd. Mae ein diwygiadau yn cefnogi cystadleurwydd y DU, yn denu buddsoddiad rhyngwladol ac yn atgyfnerthu rôl y DU mewn arloesi gwasanaethau ariannol.

Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno eleni

- Gwella mynediad at gyfalaf, hylifedd a data marchnad.
- Cyflymu arloesedd a chynhyrchiant digidol drwy lwybrau profi diogel.
- Gwneud rheoleiddio'n symlach ac yn fwy cymesur.
- Ei gwneud hi'n haws i gwmnïau ddechrau, ehangu a thyfu.
- Cefnogi mynediad defnyddwyr i farchnadoedd.
- Cryfhau ymgysylltiad rhyngwladol ag allforion a mewnfuddsoddiad.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2025/2026

Datgloi buddsoddiad cyfalaf a hylifedd

Fe wnaethom ei gwneud hi'n haws i gwmnïau godi cyfalaf drwy ddiwygiadau prospectws a llwyfan cynnig cyhoeddus newydd, gan leihau ffrithiant mewn mynediad at gyllid a chynyddu cyfleoedd i fuddsoddwyr. Fe wnaethom ehangu mynediad buddsoddwyr i farchnadoedd preifat drwy PISCES (Private Intermittent Securities and Capital Exchange System), gyda 2 weithredwr wedi'u cymeradwyo a 2 arall ar y gweill, gan gefnogi cwmnïau twf.

Er mwyn gwella hylifedd, tryloywder a chystadleurwydd byd-eang, fe wnaethom ymgynghori ar dâp cyfunol ar gyfer marchnadoedd ecwiti, dyfarnu contract ar gyfer marchnadoedd incwm sefydlog a gweithredu cyfundrefn tryloywder newydd ar gyfer bondiau a deilliadau, gan gynyddu tryloywder y farchnad yn sylweddol.

Fe wnaethom hefyd gefnogi symud masnachu penodol i setliad 1 diwrnod busnes ar ôl eu gweithredu, a fydd yn lleihau amseroedd prosesu tua 80%, gyda dyddiad cau o 11 Hydref 2027. Mae'r newid wedi'i gynllunio i wella effeithlonrwydd y farchnad, lleihau risg ac alinio'r DU â safonau setliadau byd-eang.

Cyflymu arloesedd digidol i wella cynhyrchiant

Fe wnaethom helpu cwmnïau i symud o brofi i ddefnyddio technolegau newydd drwy ehangu ein hystod o wasanaethau arloesi, gan ddarparu llwybrau mwy diogel gyda mwy o sicrwydd rheoleiddio. Roedd hyn yn cynnwys lansio ein carfan gyntaf Blwch Tywod Uwch AI gyda NVIDIA, a ddenodd 132 o geisiadau a chefnogi 23 o gwmnïau. Fe wnaethom hefyd gyflwyno Profi AI yn Fyw, a chadarnhau'r cyfranogwyr cyntaf.

Drwy ein Cyflymydd Data Craff, fe wnaethom gynnal 2 Tech Sprint a oedd yn cynnwys 17 o gwmnïau yn datblygu prototeipiau cyllid agored a data craff. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar wella mynediad at gyllid i fusnesau bach a chanolig a helpu defnyddwyr i reoli morgeisi a gwneud gordaliadau

Cynyddodd y galw am gymorth strwythuredig, gyda cheisiadau i'n gwasanaethau arloesi i fyny 89% (332 o'i gymharu â 176 yn 2024/25) a 63 o gwmnïau yn derbyn cefnogaeth.

Eleni, fe wnaethom osod sylfaen bwysig ar gyfer rheoleiddio cryptoasedau a byddwn yn parhau i ddatblygu fframwaith clir, cadarn wrth i'r sector hwn esblygu. Fe wnaethom sefydlu rhaglen brawf ar gyfer stablecoins a datblygu canllawiau tocenyddiaeth cronfeydd i wella sicrwydd i arloesi. Gyda Banc Lloegr (y Banc), fe wnaethom barhau i brofi ar y cyd drwy'r Blwch Tywod Gwarantau Digidol, gan archwilio diogelwch gweithredol gwarantau digidol a systemau talu dan reoleiddio.

Fe wnaethom alluogi cwmnïau sydd â rheolaethau twyll cryf i ddiwygio neu ddileu'r terfyn digyswllt o £100, gan eu helpu i ymateb i anghenion defnyddwyr sy'n newid a thechnoleg newydd. Fe wnaethom hefyd helpu rhai buddsoddwyr manwerthu i gael mynediad at nodiadau masnachu cyfnewid crypto, gan gefnogi arloesedd a chystadleuaeth wrth gynnal amddiffyniadau.

Effaith ar farchnadoedd



Effaith ar gwmnïau



Gwneud rheoleiddio'n symlach ac yn fwy cymesur

Fe wnaethom ymgynghori ar newidiadau i adrodd trafodion yr amcangyfrifir y bydd busnesau yn arbed £87m arall y flwyddyn. Ochr yn ochr â'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA), fe wnaethom ymgynghori ar symleiddio'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio, tra'n cadw amddiffyniadau. Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EF ar y camau nesaf yn dilyn eu hymateb i'r ymgynghoriad, gyda newidiadau deddfwriaethol yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bil Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i gwmnïau a chefnogi arloesedd, fe wnaethom gyhoeddi'r camau nesaf ar ddiwygio'r system iawndal gyda'r Ombwdsmon Ariannol, ochr yn ochr â diwygio deddfwriaethol arfaethedig gan y Llywodraeth.

Ei gwneud hi'n haws i gwmnïau ddechrau a thyfu

Fe wnaethom wella cyflymder a rhagweladwyedd awdurdodiadau, gan roi penderfyniadau cynharach, cliriach i gwmnïau, tra'n cynnal safonau trylwyr. Fe wnaethom gyflwyno targedau awdurdodi gwirfoddol a dechrau mesur perfformiad yn eu herbyn. Yn Ch4 (Ionawr – Mawrth 2026), penderfynwyd ar 97.6% o geisiadau o fewn y targedau hyn, neu dargedau oedd yn bodoli eisoes.

Fe wnaethom roi gwybod i fwy na 382 o gwmnïau ein bod yn 'bwriadu cymeradwyo', gan roi sicrwydd cynharach wrth iddynt geisio mynd i mewn i'r farchnad neu ehangu ynddi.

Fe wnaethom gefnogi cwmnïau sy'n tyfu drwy lansio Uned Ehangu ar y cyd â'r PRA, gan gynnwys carfan beilot o 5 banc ac 1 cymdeithas adeiladu. Fe wnaethom hefyd gynyddu capasiti Goruchwyllo Twf Cynnar ac Uchel o 50% i gefnogi cwmnïau arloesol sy'n tyfu'n gyflym yn well. Ehangodd cefnogaeth cyn ymgeisio bron i 250% gyda dros 300 o gwmnïau yn gwneud cais, gan gynnwys taliadau cyfanwerthu, buddsoddiadau defnyddwyr, cymorth wedi'i dargedu, BNPL a chwmnïau yswiriant a reoleiddir yn unigol.

Er mwyn cefnogi twf yn y sector cydfuddiannol, fe wnaethom sefydlu Uned Datblygu Cymdeithasau Cydfuddiannol ac ymgymryd â gwaith ehangach i adnabod rhwystrau i fynediad ac ehangu, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau mewn ymateb i gais y Llywodraeth. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cynlluniau i leihau amseroedd cofrestru cydfuddiannol o draean a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn fel rhan o'n cefnogaeth ehangach i'r sector.

Cefnogi mynediad defnyddwyr i farchnadoedd

Mae ein canllawiau cyngor ar ddiwygiadau ffiniau a morgeisi sy'n cefnogi cyfranogiad buddsoddi a hygyrchedd yn y farchnad dai, wedi'u nodi o dan Helpu defnyddwyr.

Er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth a rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr dros eu taliadau, fe wnaethom gefnogi cyflwyno taliadau cylchol amrywiol o dan fancio agored.

Trawsbynciol



Effaith ar gwmnïau



Trawsbynciol



Effaith ar gwmnïau



Trawsbynciol



Gwella allforion a mewnfuddsoddiad

Fe wnaethom ehangu cyrhaeddiad rhyngwladol y DU yn yr Unol Daleithiau, Asia-Môr Tawel a Singapore, gan gefnogi allforion a mewnfuddsoddiad. Fe wnaethom gyfrannu at lansiad y Swyddfa Buddsoddi: Gwasanaethau Ariannol gan y Llywodraeth. Fe wnaethom hefyd weithredu Cytundeb Gwasanaethau Ariannol Berne, gan alluogi i 18 o gwmnïau gofrestru ar gyfer busnes trawsffiniol.

Fe wnaethom sefydlu partneriaeth strategol ar AI gydag Awdurdod Ariannol Singapore i gefnogi arloesedd AI diogel, helpu cwmnïau i ehangu ar draws marchnadoedd, a denu mewnfuddsoddiad.

Er mwyn cefnogi sefyllfa'r DU fel canolfan cyllid cynaliadwy fyd-eang, fe wnaethom ymgynghori ar reoleiddio graddfeydd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, yr amcangyfrifir y bydd yn darparu tua £500m mewn buddion net dros y degawd nesaf.

Fe wnaethom helpu i leihau ffurthiant rheoleiddio, gan gynnwys cynigion ar gyfer rheolau symlach ar gyfer rheolwyr cronfeydd, newidiadau i reolau ymchwil buddsoddi a gofynion tâl mwy cymesur ar gyfer banciau. Fe wnaethom hefyd symleiddio rheolau ar gyfer yswirwyr, gan gryfhau sefyllfa'r DU fel arweinydd mewn yswiriant masnachol.

Y gwahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud

Mae ein blwyddyn gyntaf yn dangos bod rhagweladwyedd rheoleiddiol a chyflymder yn bwysig, ochr yn ochr â sylwedd diwygio, wrth alluogi cwmnïau i weithredu yn hyderus. Mae amodau economaidd a geowleidyddol ehangach yn parhau i siapio canlyniadau, a bydd yr effeithiau llawn yn dod yn gliriach dros amser.

Yn erbyn y cefndir hwn, fe wnaeth ein gwaith wella amodau i gwmnïau fuddsoddi, arloesi a chodi cyfalaf. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn canlyniadau system ehangach. Mae'r ardoll FSCS, er enghraifft, wedi gostwng i un o'i lefelau isaf mewn degawd, gan adlewyrchu'n rhannol effaith gwaith o dan ein strategaeth 2022 i 2025 i leihau methiant a niwed cwmnïau. Mae lefelau ardoll is yn lleihau costau i gwmnïau ac yn cefnogi marchnad fwy sefydlog a chystadleuol.

Mae'r newidiadau hyn eisoes yn dangos effaith, gyda chynnydd net o £4.4bn mewn mynediad at gyllid i fusnesau. Llundain oedd yr ail ganolfan ariannol uchaf yn y byd ym Mynegai Canolfannau Ariannol Byd-eang Z/Yen, dim ond 1 pwynt y tu ôl i Efrog Newydd, ac roedd y DU yn parhau i fod yn allforiwr net mwyaf y byd o wasanaethau ariannol, gyda chynnydd termau real o 6% o'i gymharu â 2024/25.

'Rydym yn gwybod bod marchnad gwasanaethau ariannol ffyniannus, gystadleuol yn sylfaen i economi sy'n tyfu.'

Sheree Howard, Cyfarwyddwr Gweithredol, Awdurdodiadau



Darllenwch sut rydym wedi datblygu ein hamcan cystadleurwydd a thwrf rhyngwladol eilaidd ar ein tudalen metrigau SICGO.

Effaith ar
economi a
chymdeithas
y DU





Brwydro yn erbyn troseddau ariannol

Atal niwed, diogelu defnyddwyr a chryfhau uniondeb y farchnad



Pam bod hyn yn bwysig

Mae troseddau ariannol yn niweidio defnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd. Mae'n dwyn arian oddi ar ddefnyddwyr a busnesau, yn tanseilio hyder mewn gwasanaethau ariannol, ac yn niweidio uniondeb y farchnad. Mae gweithgarwch troseddol hefyd yn lleihau'r cronfeydd sydd ar gael ar gyfer buddsoddi a thwf, gan wneud marchnadoedd yn llai deniadol ac yn llai gwydn.

Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno eleni

- Cryfhau canfod troseddau ariannol yn gynnar, gan gynnwys risgiau troseddau cyfundrefnol, drwy well data a dadansoddeg.
- Targedu'r twyll defnyddwyr mwyaf niweidiol, gan gynnwys hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon, a gweithgarwch anawdurdodedig.
- Codi safonau mewn sectorau risg uwch i leihau amlygiad i weithgarwch anghyfreithlon.
- Amharu ar gamymddwyn difrifol i amddiffyn hyder y farchnad.
- Lleihau niwed ar-lein a thrawsffiniol drwy weithredu cydgysylltiedig ar draws y system.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2025/26

Defnyddio data a dadansoddeg i atal a chanfod niwed

Fe wnaethom ehangu ein galluoedd deallusrwydd a dadansoddeg i adnabod bygythiadau yn gynharach a thargedu'r risgiau mwyaf arwyddocaol. Mae offer awtomataidd wedi gwella ansawdd rhybuddion a ddefnyddir i ganfod delio mewnol ac ymestyn ein gwyladwriaeth ar draws ystod ehangach o weithgareddau.

Cyfrannodd y galluoedd hyn at ymyrryd mewn niwed yn gynharach. Gan ddefnyddio offer dadansoddol uwch, fe wnaethom dynnu mwy na 190 o wefannau sgam sy'n torri FSMA i lawr. Mae ein platfform dadansoddeg bellach yn cefnogi adnabod twyll a gwyngalchu arian, gan symud o ymyrraeth adweithiol i ymyrraeth ragweithiol.

Gan weithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA), fe wnaethom symleiddio rhannu data a gwella canfod ac aflonyddu ar droseddau ariannol. Gan ddefnyddio ein platfform dadansoddeg, fe wnaethom ddadansoddi setiau data, gan gynnwys adroddiadau gweithgaredd amheus, ac adnabod 30 o froceriaid crypto heb eu cofrestru a sefydliad taliadau dan amheuaeth o alluogi gweithgarwch troseddol. Yn sgil adolygu dros 600 o gofnodion datgelwyd oddeutu £30m mewn gweithgaredd heb ei gofrestru, gan ysgogi camau goruchwyllo a gorfodaeth.

Trawsbynciol



Effaith ar economi a chymdeithas y DU



'Mae pob achos o dwyll rydym yn ymyrryd ynddo, pob sgam rydyn ni'n ei atal, pob punt rydyn ni'n ei dychwelyd i ddioddefwyr, yn cryfhau'r sylfaen ymddiriedaeth y mae ein marchnadoedd yn dibynnu arni.'

Steve Smart, Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodaeth a Goruchwyllo'r Farchnad



Fe wnaethom gryfhau ein gallu i atal gangiau troseddol cyfundrefnol rhag manteisio ar statws cwmni rheoledig drwy adnabod dangosyddion risg yn gynharach mewn awdurdodiadau a gwrthod ceisiadau risg uwch. Fe wnaethom hefyd gymryd dull mwy deallusol o adnabod cwmnïau rheoledig gyda dangosyddion troseddau cyfundrefnol, gweithio gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith a defnyddio offer goruchwyllo a gorfodaeth i aflonyddu ar risgiau.

Ymyrryd mewn twyll a gwella amddiffyniad defnyddwyr

Mae twyll yn parhau i fod yn fygythiad mawr, gyda thwyll buddsoddi yn cynhyrchu dros £1.1bn mewn colledion. Mae'r troseddau hyn yn achosi niwed ariannol sylweddol. Fe wnaethom weithio gyda llwyfannau ar-lein i adnabod a dileu hysbysebion sgam yn llygad y ffynnon ac ymgymryd â 17 ymweliad goruchwyllo byr-rybudd â chwmnïau a amheuir o dwyll buddsoddi.

Fe wnaethom hefyd arwain ymdrechion cydgysylltiedig i amharu ar hyrwyddiadau ar-lein anghyfreithlon ar raddfa. Arweiniodd ein 'wythnos o weithredu' ar ddylanwadwyr ariannol ym mis Mehefin 2025 gyda 9 rheoleiddiwr rhyngwladol, at 3 arestiad, 6 achos troseddol, 11 llythyr rhybuddio neu stopio wedi'i dargedu, 50 hysbysiad rhestr rhybuddio a 650 o geisiadau tynnu i lawr.

Fe wnaethom gyhoeddi 2,329 o rybuddion am gwmnïau ac unigolion anawdurdodedig neu sgam bosibl yn 2025, o'i gymharu â 2,240 o rybuddion yn 2024. Mae hyn yn tynnu sylw at raddfa niwed ar-lein a'r angen am reolaethau ar lefel plattform.

Mae mulod arian yn parhau i fod yn hwyluswyr twyll sylweddol a chynyddol ac maent yn flaenoriaeth a rennir gyda'r NCA. Canfu ein harolwg yn 2025 o 35 o gwmnïau ar draws y sectorau taliadau a bancio manwerthu fod 222,173 o gwsmeriaid personol wedi'u hatal am weithgarwch a amheuir fel mulod, i fyny 4.4% ar 2024 a 30.5% ar 2023.

Drwy'r Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol, fe wnaethom arwain cydweithrediad cyfyngedig o ran amser i olrhain sut mae enillion twyll yn symud ar draws cyfrifon ac yn cael eu hariannu. Cryfhaodd hyn ein dealltwriaeth o rwydweithiau mulod a llif cronfeydd. Bydd ein canfyddiadau'n cael eu rhannu â diwydiant a phartneriaid yn y misoedd nesaf i gefnogi ymyrraeth mwy effeithiol, cydgysylltiedig.

Fe wnaethom gryfhau amddiffyniad defnyddwyr drwy hyrwyddo ein teclyn Gwiriwr Cwmni. Rydym yn amcangyfrif bod yr offeryn wedi cael ei ddefnyddio dros 1.9 miliwn o weithiau ers ei gyflwyno ym mis Ionawr 2025. Yn dilyn ymgyrch hysbysebu ym mis Ionawr 2026, gwelsom gynnydd o 49% mewn amcangyfrif o ddefnyddwyr wedi'u diogelu (o tua 464 i 694 yr wythnos).

**Effaith ar
ddefnyddwyr**



'Rhaid adeiladu hyder gwirioneddol yn gynnar – drwy atal, cymesuredd a chydweithio. Mae hynny'n cymryd amser, ac mae'n cymryd pob un ohonom - rheoleiddwyr a diwydiant - yn gweithio gyda'n gilydd'

Therese Chambers, Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodaeth a Goruchwyllo'r Farchnad



Codi safonau gwrth-wyngalchu arian (AML) mewn sectorau risg uwch

Canolbwyntiodd ein goruchwyliaeth AML yn fwy ar risg ac wedi'i arwain gan ddata. Canfu adolygiadau o dros 300 o gwmnïau cyllid corfforaethol hyd at ddwy ran o dair nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwyngalchu Arian. Cefnogodd adolygiadau tebyg o 300 o gwmnïau benthyca cofrestredig AML a 300 o reolwyr asedau oruchwyliaeth gyson ar draws sectorau risg uwch.

Pan wnaethom adnabod gwendidau difrifol, fe wnaethom gymryd camau dilynol, gan ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau wella diffygion, gwella rheolaethau a llywodraethu, neu gyfyngu ar weithgareddau. Fe wnaethom ddwysáu achosion materol ar gyfer gorfodi neu ymadael â'r farchnad.

Drwy'r Swyddfa Goruchwyllo Gwrth-Wyngalchu Arian y Corff Proffesiynol (OPBAS), fe wnaethom ymyrryd lle gwnaethom adnabod gwendidau sylweddol mewn goruchwyliaeth AML gan oruchwylwyr corff proffesiynol, gan gynnwys cymryd ein camau gorfodaeth cyntaf. Fe wnaethom hefyd weithio gyda goruchwylwyr corff proffesiynol i gryfhau effeithiolrwydd goruchwyllo a gyrru safonau mwy cyson wrth i ddiwygiadau fynd rhagddynt. Gyda'i gilydd, mae'r ymyriadau hyn yn codi safonau ac yn lleihau amlygiad i droseddau ariannol ar draws sectorau risg uwch.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canfyddiadau ar sut mae cwmnïau yn bodloni gofynion asesu risg, ac yn lliniaru a rheoli risgiau yn briodol.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Trysorlys EF gynlluniau i ehangu cylch goruchwyllo AML yr FCA i gynnwys cwmnïau cyfrifyddu a sector cyfreithiol, gyda deddfwriaeth yn mynd rhagddi. Mewn ymateb, rydym wedi sefydlu prosiect Diwygio AML pwrpasol i ddylunio dull graddadwy, wedi'i arwain gan ddata, sy'n seiliedig ar risg o oruchwyllo, gyda chyflawniad yn dibynnu ar y bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Cymryd camau cadarn yn erbyn cam-drin y farchnad

Fe wnaethom barhau i fynd ar drywydd camymddwyn cam-drin yn y farchnad drwy orfodaeth a goruchwyllo, gan sicrhau 4 euogfarn delio mewnol, gyda 2 yn arwain at ddeddfrydau record o gyfanswm o 11 mlynedd o garchar. Fe wnaethom ddirwyo cyfanswm o £1.77m i 12 unigolyn (i fyny o 2 unigolyn yn 2024/25) am ddelio mewnol, trin y farchnad a gwneud datganiadau camarweiniol. Fe wnaethom hefyd ddirwyo cwmnïau oddeutu £14.4m am fethiannau adrodd trafodion, gwendidau rheoli a chyhoeddi gwybodaeth anghywir.

Fe wnaethom agor 2 ymchwiliad newydd o dan y Rheolau Rhestru a gweithio gyda phartneriaid domestig a rhyngwladol i dargedu unigolion a grwpiau troseddol cyfundrefnol. Er mwyn atal cam-drin y farchnad, fe wnaethom gymryd camau goruchwyllo, gan gynnwys adolygiadau personau medrus, gofyniad gwirfoddol i atal gweithgarwch peryglus, a 9 ymweliad goruchwyllo cam-drin y farchnad. Fe wnaethom hefyd ehangu galluedd gwyliadwriaeth drwy ymestyn cwrdd rhybudd a datblygu offer monitro marchnad gilt newydd.

Darllenwch fwy am ein canlyniadau gorfodaeth

Effaith ar
gwmnïau



Effaith ar
farchnadoedd



Gweithio ar draws y system

Ar y cyd â'r NCA, fe wnaethom lansio'r set gyntaf o flaenoriaethau traws-system ar gyfer troseddau ariannol. Mae banciau dethol yn y DU yn treialu cynlluniau gweithredu 18 mis ar draws 4 o'r blaenoriaethau, gan gynnwys gwyngalchu arian sy'n seiliedig ar arian parod, mulod arian, ac awdurdodaethau risg uchel ar gyfer cyllid anghyfreithlon a thwyll. Bydd mewnwelediadau yn llywio dulliau system gyfan yn y dyfodol.

effaith ar
economi a
chymdeithas
y DU




Y gwahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud

Fe wnaethom gryfhau amddiffyniad i ddefnyddwyr a marchnadoedd drwy aflonyddu ar niwed yn gynharach a chodi safonau mewn ardaloedd risg uwch. Mae dadansoddeg gwell, goruchwyllo a gorfodaeth wedi'i dargedu wedi gwella ein gallu i ymateb i dwyllo, gwyngalchu arian a cham-drin y farchnad, ochr yn ochr â gweithredu cydgysylltiedig â phartneriaid ar draws y system.

Dangosodd ôl-brofi yn y sectorau taliadau fod dadansoddeg newydd wedi adnabod risg uwch yn gynharach. Mae integreiddio data ar draws mwy na 52 miliwn o gofnodion yn cefnogi adnabod yn gynharach ac ymyrraeth fwy effeithiol.

Mae hyn yn cadarnhau bod ymyrraeth gynharach, ar sail deallusrwydd yn fwy effeithiol na mesurau adweithiol yn unig. Mae troseddau ariannol yn parhau i fod yn gymhleth, ac mae'r canlyniadau yn dibynnu ar ymdrech barhaus ar draws y system, gyda disgwyl i'r effaith gryfhau dros amser.



Sut mae ein camau gorfodaeth yn diogelu defnyddwyr a marchnadoedd



Mae'r adran hon yn tynnu sylw at nifer fach o'r canlyniadau gorfodaeth sylweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r achosion hyn yn dangos sut mae ein gweithredoedd yn cyfrannu at system sy'n gweithio'n dda i ddefnyddwyr a chwmnïau.

Euogfarnau delio mewnol a gwyngalchu arian

Pam bod hyn yn bwysig

Mae cam-drin y farchnad yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder ac yn atal buddsoddiad drwy gyfaddawdu marchnadoedd teg a thryloyw. Mae mynd i'r afael â hyn yn helpu i frwydro yn erbyn troseddau ariannol ac yn cryfhau ymddiriedaeth ym marchnadoedd y DU.

Beth ddigwyddodd

Fe wnaeth cyn-ddadansoddwr ymchwil gamddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol, sensitif i brisiau a'i rhannu gydag eraill, gan gynnwys aelod o'r teulu, i fasnachu cyn cyhoeddiadau a fyddai'n symud y farchnad. Cynhyrchodd y gweithgaredd elw o tua £1m ac roedd yn cynnwys defnyddio rhwydwaith gwyngalchu arian rhyngwladol.

Beth wnaethom ni

Yn dilyn ymchwiliad troseddol fforensig ym mis Mehefin 2025, fe wnaethom sicrhau euogfarnau 2 unigolyn am droseddau delio mewnol a gwyngalchu arian. Datgelodd ein hymchwiliad hefyd rwydwaith gwyngalchu arian rhyngwladol a oedd yn cynnwys 173 o adneuoedd arian parod mewn cyfrifon a reolwyd neu a weithredwyd gan yr unigolion o'r DU i Albania. Rydym yn mynd ar drywydd achos atafaelu i amddifadu'r unigolion o enillion eu troseddau.

Canlyniad

11 mlynedd o garchar i gyd

Euogfarn am gynllun buddsoddi Ponzi twyllodrus

Pam bod hyn yn bwysig

Gall twyll buddsoddi achosi niwed ariannol sy'n newid bywydau ac erydu hyder mewn marchnadoedd ariannol. Mae amharu arno yn helpu defnyddwyr ac yn cryfhau ymddiriedaeth yn y farchnad.

Beth ddigwyddodd

Sefydlodd unigolyn gynllun Ponzi drwy gronfa fuddsoddi, gan dargedu buddsoddwyr ar-lein gydag addewidion o enillion uchel iawn. Cymerodd y cynllun arian gan 238 o fuddsoddwyr a chododd dros £1m mewn cronfeydd.

Beth wnaethom ni

Ym mis Hydref 2025, dedfrydwyd yr unigolyn am gynllwynio i dwyll a throseddau cysylltiedig. Rydym yn mynd ar drywydd achos atafaelu i amddifadu'r unigolyn o enillion ei droseddau ac i roi iawndal i'r dioddefwyr.

Canlyniad

7 ½ mlynedd o garchar

'Mae ein gweledigaeth yn glir: rydym eisiau diwylliant buddsoddi cryfach a marchnad fuddsoddi defnyddwyr wydn lle mae mwy o ddefnyddwyr yn teimlo'n hyderus yn buddsoddi.'

Lucy Castledine, Cyfarwyddwr, Buddsoddi Defnyddwyr

Cyngor buddsoddi anawdurdodedig ac euogfarn o dwyll

Pam bod hyn yn bwysig

Mae cyngor anawdurdodedig yn gadael cwsmeriaid yn agored i gynhyrchion anaddas a risgiau heb eu datgelu. Drwy weithredu yn erbyn cyngor anawdurdodedig ac arferion twyllodrus, rydym yn helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel, gwybodus.

Beth ddigwyddodd

Roedd yr unigolyn yn hyrwyddo ac yn cynghori ar strategaethau masnachu heb awdurdodiad ac yn camarwain buddsoddwyr am golledion a gwerthoedd cronfeydd. Cafodd dros £1m ei gynaeafu yn anghyfreithlon, a defnyddiwyd cronfeydd buddsoddwyr ar gyfer gwariant personol.

Beth wnaethom ni

Ym mis Rhagfyr 2025, dedfrydwyd yr unigolyn ar ôl pledio'n euog i dwyll a thorri FSMA.

Canlyniad

2 flynedd o garchar; asedau o tua £750,000 wedi'u cyfyngu hyd nes eu hatafael

'Byddwn yn mynd ar drywydd y rhai sy'n cam-drin ymddiriedaeth buddsoddwyr ac yn sicrhau nad ydyn nhw'n elwa o'u troseddu.'

Steve Smart, Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodaeth a Goruchwyllo'r Farchnad

Cymdeithas Adeiladu Nationwide – Rheolaethau troseddau ariannol gwan

Pam bod hyn yn bwysig

Mae rheolaethau troseddau ariannol cryf yn amddiffyn defnyddwyr a'r system ariannol ehangach rhag niwed. Mae gwella rheolaethau cwmnïau yn helpu i frwydro yn erbyn troseddau ariannol.

Beth ddigwyddodd

Roedd systemau gwrth-droseddau ariannol aneffeithiol yn golygu bod Nationwide wedi methu â chadw diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg ar gwsmeriaid cyfrif cyfredol personol, monitro eu trafodion yn effeithiol, neu reoli risgiau cwsmeriaid a oedd yn defnyddio cyfrifon o'r fath ar gyfer gweithgarwch busnes. Mewn un achos difrifol, roedd y methiannau hyn yn caniatáu i gwsmer dderbyn £27.3m mewn taliadau ffyrlo Covid twyllodrus.

Beth wnaethom ni

Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom ddirwyo Nationwide Building Society am y methiannau rheoli hyn.

Canlyniad

Dirwy o £44m

'Er mwyn ymladd troseddau ariannol byddwn yn gweithredu ar frys i atal niwed, amharu ar droseddwyr, a chefnogi cwmnïau i fod yn llinell amddiffyn effeithiol.'

Therese Chambers, Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol Gorfodaeth a Goruchwyllo'r Farchnad

Barclays Bank UK PLC a Barclays Bank PLC – Trin risgiau gwyngalchu arian yn wael

Pam bod hyn yn bwysig

Mae rheolaethau gwrth-wyngalchu arian effeithiol yn diogelu defnyddwyr ac yn cynnal uniondeb y farchnad. Drwy sicrhau bod cwmnïau yn rheoli risgiau gwyngalchu arian yn effeithiol, rydym yn helpu i ddiogelu uniondeb y system ariannol.

Beth ddigwyddodd

Methodd y banciau â chasglu gwybodaeth ddigonol ac asesu a rheoli risgiau gwyngalchu arian yn ddigonol cyn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid risg uchel, neu wrth agor cyfrifon arian cleientiaid, gan amlygu'r system i gamddefnydd.

Beth wnaethom ni

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom osod cosbau ariannol a sicrhau taliad gwirfoddol i gleientiaid WealthTek.

Canlyniad

Dirwy o £42 miliwn; taliad gwirfoddol o £6.28 miliwn wedi'i dalu i gleientiaid WealthTek a oedd â diffyg yn yr arian yr oeddent yn gallu ei adennill.

'Byddwn yn gweithredu newidiadau sydd wedi cael cefnogaeth ehangach ac yr ydym yn credu y byddant yn helpu i gefnogi ein hymdrechion i amddiffyn defnyddwyr rhag niwed.'

Nikhil Rathi, Prif Weithredwr

Gwybodaeth ariannol gamarweiniol

Pam bod hyn yn bwysig

Mae adroddiadau ariannol cywir gan gwmnïau rhestredig yn hanfodol ar gyfer tryloywder, uniondeb y farchnad a gwneud penderfyniadau gan fuddsoddwyr.

Beth ddigwyddodd

Cyhoeddodd cwmni wybodaeth ariannol anghywir ar ôl i ddyfarniadau cyfrifyddu gael eu dylanwadu yn amhriodol i gynnal canlyniadau a oedd wedi'u nodi'n flaenorol. Arweiniodd systemau a rheolaethau gwan at dorri'r Rheolau Rhestru.

Beth wnaethom ni

Ym mis Mawrth 2026, fe wnaethom gyhoeddi Hysbysiad Terfynol yn gosod cosb ariannol, yn dilyn ymchwiliad 9 mis.

Canlyniad

Dirwy o £12,993,700

Cyn-Brif Weithredwr yn cael dirwy - Camliwio gan gyn-Brif Weithredwr yn arwain at ddirwy a gwaharddiad o'r diwydiant

Pam bod hyn yn bwysig

Mae uwch arweinwyr yn siapio diwylliant, ymddygiad ac ymddiriedaeth ar draws y system.

Beth ddigwyddodd

Fe wnaeth Jes Staley, cyn-Brif Weithredwr, gamgynrychioli natur ei berthynas â Jeffrey Epstein pan oedd mewn rôl arweinyddiaeth uwch. Cadarnhaodd yr Uwch Dribiwnlys ganfyddiadau bod ei ymddygiad yn disgyn yn is na'r safonau disgwyledig.

Beth wnaethom ni

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom gyhoeddi Hysbysiad Terfynol yn ei wahardd o rolau uwch reolwyr a gosod cosb ariannol.

Canlyniad

Dirwy o £1.1m a gwaharddiad o'r diwydiant

Gorfodi cystadleuaeth mewn gwasanaethau ariannol

Rydym hefyd yn defnyddio ein pwerau cyfraith cystadleuaeth i ymchwilio i niwed posibl mewn gwasanaethau ariannol, gan gefnogi arloesedd, dewis a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr a chwmnïau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys gwaith ar fynediad teg i seilwaith cysylltedd, ymchwiliad i waledi talu digidol a phenderfynu peidio â blaenoriaethu ymchwiliad i fodel ffioedd mynediad dan arweiniad y diwydiant i gefnogi datblygiad gwasanaethau talu bancio agored newydd. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi yn ddiweddar y gwaith a wnaed ar fasnachwyr dyfodol nwyddau.

Y **gwahaniaeth** y mae ein gwaith yn ei wneud



Rydym yn amcangyfrif bod ein rheolau wedi cyflawni £5.6bn mewn buddion i ddefnyddwyr, cwmnïau a'r economi ehangach. Mae hyn yn cyfateb i £7.2 o fudd am bob £1 a wariwyd yn rhedeg yr FCA.

Mae'r buddion hyn yn cynnwys prisiau is ar gyfer cynhyrchion ariannol, gwell amddiffyniad rhag niwed, a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr sy'n cynilo, yn buddsoddi ac yn benthyca.

Sut rydym yn amcangyfrif yr effaith hon

Rydym yn amcangyfrif buddion gan ddefnyddio dadansoddiad cost budd (CBA), yr ydym yn ei gyhoeddi wrth gynnig neu newid ein rheolau Llawlyfr. Lle bo'n bosibl, rydym yn meintio'r buddion y disgwylir i reol eu cyflawni.

Mae rhai buddion, megis gostyngiadau mewn prisiau, yn haws i'w mesur. Mae eraill, fel gwelliannau mewn arloesedd neu gynhyrchiant, neu'r cyfraniad ehangach at dwf, yn anos. Mae hyn yn golygu nad yw ein hamcangyfrif yn cynnwys yr holl fuddion y mae ein rheolau yn eu cynhyrchu a gallant danamcangyfrif eu heffaith gyffredinol.

Rydym yn amcangyfrif bod ein rheolau wedi cyflawni

£5.6bn

mewn buddion

ddefnyddwyr, cwmnïau a'r economi ehangach.

Mae hyn yn cyfateb i

£7.2

o fudd am bob

£1 a wariwyd

yn rhedeg yr FCA.

Pam fod buddion o reolau cynharach yn cael eu cynnwys

Mae rheolau fel arfer yn cyflawni buddion dros flynyddoedd lawer.

Mae ein hamcangyfrif ar gyfer 2025/26 yn adlewyrchu'r buddion blynyddol o reolau a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n parhau i gynhyrchu effeithiau mesuradwy, yn hytrach na chyfanswm budd yr holl reolau.

Er mwyn cymharu effeithiau'n deg, rydym yn amcangyfrif buddion disgwylidig pob rheol dros y 10 mlynedd ar ôl ei chyflwyno ac yn adrodd y rhain fel ffigurau blynyddol. Rydym yn addasu amcangyfrifon cynharach i brisiau heddiw, felly mae'r ffigurau'n gyson ac yn gymharol.

Rydym wedi nodi ein methodoleg yn ein tudalen we ar effaith gadarnhaol.


Sut mae ein gwaith ehangach yn helpu i gyflawni'r buddion hyn

Dim ond os yw cwmnïau yn eu dilyn y mae rheolau yn cyflawni buddion. Mae effaith amcangyfrifedig £5.6bn mewn buddion yn 2025/26 yn adlewyrchu effaith gyfunol ein:

- **Polisi** – gosod safonau clir ar gyfer cwmnïau a marchnadoedd.
- **Goruchwyllo** – monitro risgiau ac ymyrryd yn gynnar i atal niwed, gan helpu i sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu.
- **Gorfodaeth** – gweithredu lle nad yw safonau'n cael eu bodloni, atgyfnerthu ymddiriedaeth ac atal camymddygiad.

Dosbarthiad y buddion amcangyfrifedig

Mae'r siart isod yn dangos sut y dosbarthwyd y £6.5bn o fuddion amcangyfrifedig ar draws y system ariannol.



Sut y dosbarthwyd buddion ein gwaith ar draws sectorau

Daeth y buddion mwyaf o ymyriadau mewn meysydd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer niwed i ddefnyddwyr neu effaith ar y farchnad, gan gynnwys pensiynau, yswiriant a chredyd defnyddwyr. Mae'r rhain yn adlewyrchu diwygiadau mawr sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr sy'n gwella gwneud penderfyniadau, lleihau taliadau y gellir eu hosgoi, a lleihau niwed ar draws marchnadoedd allweddol.

Yr hyn nad yw'n cael ei gynnwys yn ein hamcangyfrif

Mae ein hamcangyfrif o £5.6bn mewn buddion yn fesur ceidwadol o effaith:

- yn cynnwys dim ond buddion y gallwn eu meintio o CBA.
- yn canolbwyntio ar fuddion gros ac nid yw'n tynnu costau i gwmnïau neu eraill.
- yn eithrio effeithiau gorfodaeth er mwyn osgoi cyfrif dwbl.
- nid yw'n manteisio ar weithgareddau fel awdurdodi cwmnïau newydd, defnyddio ein gallu i gynnull ac amlygu materion sy'n peri pryder a galluogi arloesi.

Sut y bydd ein ymyriadau diweddaraf yn cyflawni buddion dros y degawd nesaf

Yn 2025/26 fe wnaethom gyflwyno rheolau newydd yr ydym yn disgwyl iddynt gyflawni dros £1bn mewn buddion bob blwyddyn dros y degawd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mesurau i gefnogi penderfyniadau pensiynau a buddsoddi defnyddwyr, yr ydym yn amcangyfrif y byddant yn cynhyrchu tua £785m y flwyddyn mewn enillion uwch.
- amddiffyniadau i bobl sy'n defnyddio cynhyrchion Prynu Nawr Talu'n Hwyrach (BNPL), ac rydym yn amcangyfrif y bydd yn arbed tua £180m y flwyddyn i ddefnyddwyr.
- ein cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr cyllid modur, yr ydym yn amcangyfrif y bydd yn rhoi £7.5bn yn ôl ym mhocedi pobl.

Oherwydd na ddaeth y rheolau hyn i rym yn ystod 2025/26, nid yw eu heffeithiau wedi'u cynnwys yn ein buddion amcangyfrifedig ar gyfer 2025/26.

Sut mae ein hamcangyfrif yn cymharu â blynyddoedd blaenorol

Mae'r holl ffigurau isod ym mhrisiau 2025/26 i alluogi cymhariaeth ar draws blynyddoedd.

Blwyddyn	Cyfanswm y budd (£m)	Gofyniad cyllido blynyddol (£m)	Cymhareb budd: cost
2025/26	5,613	784	7.2
2024/25	6,184	779	7.9
2023/24	7,184	732	9.8
2022/23	7,277	713	10.2
2021/22	7,270	746	9.7

Datganiad Adran 172

Sut y cyflawnodd y Bwrdd ei ddyletswydd **adran 172** yn 2025/26

Datganiad Adran 172

Yn ystod 2025/26, gweithredodd y Bwrdd ei ddyletswyddau o dan adran 172(1) (a)–(f) o Ddeddf Cwmnïau 2006, o fewn yr amgylchedd gweithredu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Ystyriodd y Bwrdd:

- effeithiau hirdymor penderfyniadau
- buddiannau ein pobl
- perthnasoedd â chyflenwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill
- ein heffaith ar y gymuned a'r amgylchedd
- pwysigrwydd cynnal safonau uchel o ymddygiad busnes

Ein rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:

- seneddwyr
- rhanddeiliaid llywodraethol, gwleidyddol a chyhoeddus
- defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr
- cwmnïau ac unigolion a reoleiddir
- ein pobl
- rheoleiddwyr, partneriaid ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill
- cyflenwyr
- paneli statudol annibynnol
- y gymuned a'r amgylchedd ehangach

Mae'r grwpiau hyn yn aml yn dal safbwyntiau gwahanol. Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu budd y cyhoedd wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu.

Yn 2025/26, roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn fwyaf perthnasol i benderfyniadau ar amddiffyn defnyddwyr, uniondeb y farchnad, cymesuredd rheoleiddio, ailgydbwyso risg, a chefnogaeth ar gyfer arloesi a thwf.

Ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol drwy ystod o sianeli ledled y DU, gan gynnwys digwyddiadau staff, ein cyfarfod cyhoeddus blyneddol, sesiynau seneddol, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau defnyddwyr, cwmnïau rheoledig a chyrff masnach a diwydiant. Mae ymgysylltu â'r Comisiynydd Cwynion yn cefnogi craffu ar sut rydym yn gweithredu. Mae'r rhain yn darparu cyd-destun a mewnwleidiad gwerthfawr. Mae'r crynodebau penderfyniadau isod yn adlewyrchu sut mae barn rhanddeiliaid yn llywio penderfyniadau'r Bwrdd.

Sut mae barn rhanddeiliaid yn siapio penderfyniadau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn ystyried buddiannau rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau polisi a rheoleiddio. Fel sy'n ofynnol gan FSMA, ymgynghorir yn gyhoeddus ar gynigion i newid rheolau neu ganllawiau, ac mae penderfyniadau'n tynnu ar ddadansoddiad cost budd, asesiadau effaith cydraddoldeb, ymchwil defnyddwyr a dulliau eraill i sicrhau cymesuredd. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd yn cydbwysu buddiannau canlyniadau rhanddeiliaid, ochr yn ochr ag effaith hirdymor a'r potensial am niwed fel y dangosir isod.

Rheolau PISCES (Private Intermittent Securities and Capital Exchange System) (Mehefin 2025)

Cymeradwyodd y Bwrdd reolau sy'n creu fframwaith rheoledig ar gyfer masnachu eilaidd ysbeidiol mewn cwmnïau preifat. Cafodd hyn ei lywio gan [CP24/29](#), ymgysylltu allanol a thrafodaethau gyda Thrysorlys EF i sefydlu'r blwch tywod deddfwriaethol. Roedd yn pwysu'r cyfle i gefnogi ffurfio cyfalaf ac arloesi yn erbyn uniondeb y farchnad a diogelu buddsoddwyr. Fe wnaeth mewnwleidiad gan ddiwydiant a seneddwyr amlygu buddion twf a risgiau o anghymesureddau gwybodaeth.

Canlyniad: safonau clir ar gyfer model marchnad newydd, gyda mesurau diogelu ar gyfer mabwysiadu'n gynnar.

Rheolau camymddwyn anariannol (Mehefin 2025)

Cytunodd y Bwrdd i alinio rheolau camymddwyn anariannol ar draws banciau a sefydliadau nad ydynt yn fanciau ac ymgynghori ynghylch a fyddai canllawiau Llawlyfr ychwanegol yn ddefnyddiol i gwmnïau. Cytunodd y Bwrdd i wneud y canllawiau ychwanegol hyn yn dilyn cefnogaeth gref gan ymatebwyr yr ymgynghoriad.

Canlyniad: disgwyliadau ymddygiad cryfach.

Cadeirydd dros dro Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (Ombwdsmon Ariannol (Gorffennaf 2025)

Cymeradwyodd y Bwrdd benodi cadeirydd Ombwdsmon Ariannol dros dro yn dilyn ymgysylltu â'r Ombwdsmon Ariannol a Thrysorlys EF, gan flaenoriaethu parhad, annibyniaeth a hyder y cyhoedd mewn datrys anghydfodau.

Canlyniad: parhad arweinyddiaeth, cynnal hyder ac annibyniaeth wrth ddatrys anghydfodau.

Fframwaith gwybodaeth cynnyrch buddsoddiadau cyfansawdd defnyddwyr (CCI (Tachwedd 2025)

Cymeradwyodd y Bwrdd reolau gwybodaeth cynnyrch newydd wedi'u llywio gan y paneli statudol, profion defnyddwyr ac ymgynghoriadau [CP24/30](#) a [CP25/9](#). Ystyriodd y Bwrdd eglurder i ddefnyddwyr ac effeithiau gweithredu ar gwmnïau.

Canlyniad: gwybodaeth gliriach, mwy cymharol am gynnyrch.

Rheolau prawf gweithgareddau ategol (Rhagfyr 2025)

Cymeradwyodd y Bwrdd ddiwygiadau sy'n symleiddio sut mae cwmnïau anariannol yn penderfynu a yw eu gweithgarwch masnachu yn gymwys ar gyfer yr eithriad gweithgareddau ategol. Fe wnaeth ymgysylltiad eang â diwydiant, cyrff masnach, seneddwyr a grwpiau arbenigol, ac ymgynghoriad ffurfiol, [CP25/19](#), lywio eu dull gweithredu.

Canlyniad: profion mwy cymesur heb wanhau mesurau diogelu ar y perimedr rheoleiddio.

Rheolau credyd talu gohiriedig (DPC) - cyfeirir atynt yn aml fel Prynu Nawr Talu'n Hwyrach (BNPL) (Ionawr 2026)

Cymeradwyodd y Bwrdd reolau terfynol i leihau niwed i ddefnyddwyr o gynhyrchion BNPL, gan dynnu ar [CP25/23](#) a mewnbwn gan gwmnïau, grwpiau defnyddwyr, paneli statudol a Thrysorlys EF. Mae'r Bwrdd yn cydbwysu bregusrwydd defnyddwyr, datgelu cyfrannol ac arloesi.

Canlyniad: amddiffyniadau cryfach, gyda chymfundrefn gymesur ar gyfer darparwyr credyd cost isel.

Rhaglen rhagoriaeth reoleiddiol (Chwefror 2026)

Cymeradwyodd y Bwrdd gynigion i gryfhau ein model rheoleiddio, wedi'u llywio gan brofion marchnad gyda chwmnïau a thrafodaethau gyda Thrysorlys EF.

Canlyniad: gwelliannau sy'n canolbwyntio ar wella tryloywder, rhagweladwyedd a chysondeb ar draws gweithgareddau rheoleiddio.

Datganiad polisi adolygiad ffiniau canllawiau cyngor (AGBR) (Chwefror 2026)

Cymeradwyodd y Bwrdd [ddatganiad polisi terfynol](#) AGBR, gan gyflwyno cymorth wedi'i dargedu i helpu defnyddwyr gyda phenderfyniadau buddsoddi a phensiynau. Fe wnaethant ystyried fforddiadwyedd cyngor, risgiau o gamwerthu ac eglurder i gwmnïau. Cafodd y polisi ei lywio gan ymgysylltu helaeth drwy ymchwil defnyddwyr ac ymgysylltu â chwmnïau, paneli statudol, yr Ombwdsmon Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a Thrysorlys EF, ochr yn ochr ag ymgynghoriadau.

Canlyniad: ehangu mynediad at gymorth wrth gynnal rheiliau gwarchod clir i amddiffyn defnyddwyr.

Cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr y Comisiwn Cyllid Modur (2007-2014) a Chynllun Gwneud iawn i Ddefnyddwyr y Comisiwn Cyllid Modur (2014-2024) (Mawrth 2026)

Cymeradwyodd y Bwrdd [reolau terfynol](#) i weithredu'r cynlluniau gwneud iawn i ddefnyddwyr cyllid modur, yn dilyn ymgysylltiad helaeth, ymgynghoriad ([CP25/27](#)) a dadansoddiad pellach. Roedd ymgysylltu yn cynnwys benthycwyr, broceriaid, cyrff masnach, grwpiau defnyddwyr, cwmnïau hawllyr a chwmnïau rheoli hawliadau, ochr yn ochr â phaneli statudol. Ar ôl ymgynghori, roedd yr ymatebion, a data a dadansoddiad arall, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr a dadansoddiad cyfreithiol, yn llywio'r gwaith mireinio cyn cymeradwyo'r rheolau terfynol.

Canlyniad: wedi'i fwriadu i ddarparu iawndal teg, amserol a chyson i ddefnyddwyr sy'n cael eu niweidio gan gomisiwn annheg a chysylltiadau masnachol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol

Aelodau seneddol

Fe wnaethom ddarparu tystiolaeth i Bwyllgorau Seneddol, ymateb i geisiadau am wybodaeth, darparu briffio seneddol, cyhoeddi cylchlythyrau chwarterol i ASau a chyhoeddi ein hadroddiad Perimedr. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gymryd rhan mewn 10 sesiwn Pwyllgor Seneddol a Phwyllgor Bil, gan adlewyrchu ymgysylltiad sylweddol uwch na llawer o gyrff cyhoeddus tebyg. Helpodd adborth gan seneddwr ar faterion fel AGBR, mynediad at arian parod ac iawndal cyllid modur i lunio asesiad y Bwrdd o gymesuredd ac atebolrwydd cyhoeddus.

Rhanddeiliaid y llywodraeth, gwleidyddol a chyhoeddus

Roedd ymgysylltu â Thrysorlys EF, gweinidogion, swyddogion, Seneddau a Chynulliadau datganoledig yn darparu cyd-destun polisi ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd. Cyfarfu ein Pwyllgor Archwilio â'r Comisiynydd Cwynion i gefnogi gweithrediad effeithiol y cynllun cwynion, gan atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd.

Defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr

Fe wnaeth ymgysylltu â thua 40 o sefydliadau defnyddwyr drwy'r Rhwydwaith Defnyddwyr, diweddariadau misol gan y Panel Defnyddwyr, cyfathrebu ag ASau, ymchwil defnyddwyr wedi'i dargedu a mewnwelediadau o'r Arolwg Financial Lives (FLS) lywio penderfyniadau ar gynigion polisi, megis fframwaith CCI, rheolau BNPL a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer pensiynau a buddsoddiadau.

Cwmnïau ac unigolion a reoleiddir

Fe wnaethom ymgysylltu â chwmnïau drwy fyrdau crwn, digwyddiadau diwydiant, rhyngweithiadau goruchwyllo a thystiolaeth o arolygon, cyrff masnach ac ASau. Fe wnaethom ddisodli llythyrau portffolio gydag adroddiadau Blaenoriaethau Rheoleiddio cliriach, mwy cyson. Fe wnaeth ein harolwg Panel Ymarferwyr ein helpu i gasglu mewnwelediadau i safbwyntiau cwmnïau. Fe wnaeth mewnwelediadau gan gwmnïau ac unigolion helpu i lywio ein gwaith, megis penderfyniadau ar symleiddio prawf gweithgareddau ategol, PISCES, ac alinio rheolau camymddwyn anariannol.

Ein pobl

Mae ein Pwyllgor Pobl yn ymgysylltu â chydweithwyr, ein Pwyllgor Ymgynghorol Staff a'n rhwydweithiau staff. Cefnogodd mewnwelediadau arolwg staff oruchwyliaeth y Bwrdd o ddiwylliant, gallu ac effeithiolrwydd sefydliadol. Darllenwch am ein Pwyllgor Pobl yn ein Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

Rheoleiddwyr, partneriaid ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill

Mae ein cydweithrediad â rheoleiddwyr, partneriaid a'r system reoleiddio ehangach yn cefnogi goruchwyliaeth y Bwrdd o risgiau trawsfarchnad ac effeithiau systemig, tra bod ein Pwyllgor Goruchwyllo yn adolygu adroddiadau gan yr Ombwdsmon Ariannol, y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) ac mae'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) yn cefnogi'r Bwrdd i oruchwyllo gallu pob corff i gyflawni ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys cymeradwyo cyllidebau.

Rydym hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr domestig a rhyngwladol drwy strwythurau fel y fframwaith Goblygiadau Ehangach, y Fforwm Cydweithredu Rheoleiddio Digidol (DRCF), y Fforwm Mentrau Rheoleiddiol (gan gynnwys y Grid Mentrau Rheoleiddio), a Phwyllgor Basel ar gyfer Goruchwyllo Bancio.

Mae ein perthnasoedd statudol ac atebolrwydd craidd wedi'u nodi yn Sut rydyn ni'n gweithio a Gyda phwy rydyn ni'n gweithio. Mae ein hymgysylltiad rheoleiddiol ehangach wedi'i gynnwys yn ein trosolwg gweithredol Grŵp, a chyfeirir at ein gwaith gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn Ein cynnydd strategol 2025/26 ac Ein canlyniadau gorfodaeth.

Cyflenwyr

Fe wnaethom weithio gyda thua 1,000 o gyflenwyr, gyda'n prosesau caffael yn sicrhau gwerth am arian a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Fe wnaethom gyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern a chynnal disgwyliadau clir drwy ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr.

Paneli statudol annibynnol

Rydym yn gweithio gyda 6 panel statudol annibynnol wrth ddatblygu ein polisiau a phenderfyniadau rheoleiddiol eraill. Darllenwch am effaith y gwaith hwn yn Sut rydyn ni'n rheoleiddio.

Cymuned a'r amgylchedd

Roedd ein System Rheoli Amgylcheddol (ardystiedig o dan ISO 14001), rhaglenni cymunedol a datgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cefnogi ystyriaeth y Bwrdd o effeithiau amgylcheddol o dan adran 172(1)(d). Darllenwch ein hadroddiad cynaliadwyedd amgylcheddol 2025/26.